

# ENWAU CYMRU

CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU / WELSH PLACE-NAME SOCIETY

Bwletin 18 \* Hydref 2020

ISSN 2631-8962 (digidol / digital)

Bulletin 18 \* Autumn 2020

ISSN 2632-1335 (print)



## GWYBEDOG, EPYNT

Tynnwyd y llun hwn gan Iorwerth Peate ar ran Amgueddfa Genedlaethol Cymru, wythnos cyn yr alltudio, Mehefin 1940

*This photograph was taken by Iorwerth Peate on behalf of the National Museum of Wales, a week before the family's removal, June 1940*

## Ar gyfer eich dyddiadur | Dates for your diary

### 15 Hydref / October 2020

Sgwrs a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol CELIC (rhithiol) / WPNS Talk and Annual General Meeting (virtual)

6.15 (i gychwyn / to start 6.30): 'Gwarchod

Enwau Lleoedd: y cwestiynau anodd'

7.30 (i gychwyn / to start 7.45): Cyfarfod

Cyffredinol / General Meeting

### 9–11 Ebrill / April 2021

New date for Society for Name Studies in Britain and Ireland's Twenty-ninth Annual Conference: Heronston Hotel, Bridgend (postponed from 15–16 October 2020).

For further information and an updated programme, see the Society's website: [snsbi.org.uk/2020\\_Bridgend.html](https://www.snsbi.org.uk/2020_Bridgend.html)

### 2 Hydref / October 2021

Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol CELIC: Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Uwch-efrydiau Cymreig a Cheltaidd / WPNS Annual Conference and Annual General Meeting: Drwm, National Library of Wales, Aberystwyth, with the co-operation of the Centre of Advanced Welsh and Celtic Studies

*Cadwch lygad hefyd ar fersiwn diweddaraf y dyddiadur ar ein gwefan:*

[www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/digwyddiadau/](http://www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/digwyddiadau/)

*Please keep an eye on our website for the up-to-date diary:*

<https://www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/our-events/>

---

### Cofnodion

Mae cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i aelodau drwy gysylltu ag: [angharad.fychan@googlemail.com](mailto:angharad.fychan@googlemail.com)

### Golygyddol: nodiadau i gyfranwyr

Mae croeso i chi anfon nodiadau neu erthyglau i mi ar gyfer y *Bwletin*, yn Gymraeg (gyda chrynodeb byr iawn yn Saesneg) neu'n Saesneg, hyd at uchafswm o tua 1,000 gair.

Croesewir lluniau, ond rhaid iddynt fod o ansawdd uchel, addas i'w cyhoeddi, a chyfrifoldeb y cyfranwyr yw sicrhau'r hawliau angenrheidiol i'w cyhoeddi.

Cyfraniadau ar gyfer rhifyn y gwanwyn i law Ann, [bwletinCELIC@gmail.com](mailto:bwletinCELIC@gmail.com), os gwelwch yn dda, erbyn 1 Mawrth 2021.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y *Bwletin* o anghenraid yn cynrychioli barn y Gymdeithas na'r Golygydd.

### Minutes

Minutes of the Committee Meetings are available for members by contacting: [angharad.fychan@googlemail.com](mailto:angharad.fychan@googlemail.com)

### Editorial: notes for contributors

You're welcome to send me notes or articles for the *Bulletin* in Welsh (with a very short summary in English) or English, up to a maximum of around 1,000 words.

Images are also welcome, but they should be of a high resolution, adequate for publication, and it is the responsibility of contributors to ensure the necessary publication rights.

Please send contributions for the spring issue to Ann, [bwletinCELIC@gmail.com](mailto:bwletinCELIC@gmail.com), by 1 March 2021.

Opinions expressed in this *Bulletin* are not necessarily those of the Society or of the Editor.

## Yr Epynt – Cymdogaeth farw. Enwau byw.

Yn anad dim arall y mae iaith, medd y gwybodusion, yn storfa gwybodaeth arbenigol. Mae'n drysorfa ffordd o fyw a'i geirfa'n gasgliad o'r pethau y mae pobl o'r un diwylliant yn sôn amdanynt.

Ar ddiwrnod olaf mis Mehefin 1940, dinistriwyd y berthynas symbiotig honno rhwng pobl yr Epynt, eu hiaith a'u ffordd o fyw. 'Y Chwalfa' yw'r enw am drawma'r haf hwnnw gan y rhai a ddigartrefwyd ac a ddiwreiddiwyd – nid enw a fathwyd gan sylwebyddion gwrthrychol, ond enw a darddodd megis atom ffrwydrol o galon y profiad catastroffig ei hunan.

A beth a chwalwyd? Pawb a phopeth. Popeth a phawb. Cymdogaeth Gymraeg fyw. Cymdogaeth gref ac iddi 54 o ffermydd a 220 o drigolion. Bro'r 'cyd' os buodd un erioed. Cymdogaeth y cydweithio. Cydgynaeafu. Cydwnio. Cydgneifo. Cyd-ladd mochyn. Cydeisteddfota. Cydfwya. Cydyfed. Cydaddoli. Cydgwestiynu. Cyd-ddadlau. Cyd-ddyheu. Ac, wrth gwrs, Cydymdeimlo a Chydlawenhau. Dyma rai o eiriau allweddol yr eirfa helaeth i ryfeddu a ddiddymwyd a'r holl wybodaeth arbenigol anfesuradwy – ganrifoedd dirifedi ohoni – a gollwyd pan chwalwyd diwylliant neilltuol Epynt. A'r teuluoedd oll wedi'u gwasgaru i'r pedwar gwynt, ni fyddai swyddogaeth i eiriau'r bobl mwyach am na fyddent, mwyach, yn rhan o'r un diwylliant.

Ond nid gallu absoliwt yw grym y Fyddin Brydeinig. Iorwerth Davies oedd yr ifancaf o saith o blant a fagwyd ar ffarm Gwybedog, ar wastadedd gogleddol yr Epynt (gweler llun y clawr). Crwtyn ifanc, rhyw 15 oed, oedd e pan drowyd y teulu o'u cartref a'u bywoliaeth. *Mae 'na un peth â'n nhw fyth oddi wrtho' i*, medde fe yn ei henaint am y fyddin. Roedd y tŷ cymen a godwyd gan ei gyndeidiau a'r perthi a blannwyd gan ei dad-cu wedi'u chwalu a'u diddymu saith deg mlynedd ynghynt. *Ond, medde fe, 'Ân' nhw byth â'r cof am Ga' Dan Tŷ, Gwybedog, pan o'n ni'n blant. Byth.*

Person hael oedd Iorwerth a'i haelioni pennaf oedd rhannu'n rhad ac yn rhwydd o helaethrwydd ei gof. Yn 'gyfarwydd' go iawn – un a feddai ar y gallu i gyfareddu – roedd wrth ei fodd yn arwain plant a phobl o bob oed ar daith o gyd-ddychymyg ar hyd y pymtheg milltir o ucheldir – y 30,000 erw sgwâr a elwir yn Fynydd Epynt a Mynydd Bwlch-y-groes. Ac yntau dros ei ddeg a phedwar ugain mlwydd oed, byddai ei gynulleidfaoedd yn dal i synnu a rhyfeddu at rym ei gof – grym a brofodd, fel yr ymfalchïai, yn drech na grym difaol y fyddin.

Ond, fel y byddai Iorwerth yn barod iawn i addef, yr oedd hyfywedd ei gof yn ddibynnol ar un elfen arall o'r gymdogaeth a fu na lwyddodd yr imperialaeth Brydeinig i'w llwyr dileu, sef yr enwau. Nid na fu iddynt wneud eu gorau (a'u gwaethaf) i'w gwaredu. Ben bore, 1 Gorffennaf, 1940, dechreuodd y gynnu mawr danio – cadarnhad mai nid yr Epynt oedd y mynydd hwn bellach ond y *Sennybridge Artillery Range* ('y range' erbyn hyn ar lafar gwlad).

Roedd gan hyfforddwyr y fyddin ddigonedd o dargedau parod ar gyfer y darpar fagnelwyr a bomwyr, sef yr holl ffermydd a thyddynnod gwag. Dyrnaid yn unig ohonynt – megis *Disgwylfa* a thafarn *Ty'nymynydd (Y Drovers)* – sy'n dal ar eu traed, a hynny, wrth gwrs, am eu bod o ddefnydd i'r fyddin. Chwalwyd crynswth yr anhedd-dai yn llwyr ac yn hollol a'r cerrig (a gynaeafwyd gan y teuluoedd o fân chwareli'r mynydd, gynt) yn cael eu claddu'n sail i'r rhwydwaith ffyrdd a phontydd newydd a godwyd er cludo'r milwyr a'u tanciau i faes yr ymarfer

lladd. Ond er eu diddymu, ac er ailfedyddio'r safleoedd yn 'Farm 23' a 'Farm 47' ac ati, rywffordd rywsut erys yr enwau – rhai yn disgrifio'u statws (e.e. *Neuadd Fach, Tir-bach, Tir-cyd, Croffte a Ma'r dy*), rhai yn cadw cof am gymeriadau a fu (e.e. *Ffynnon Dafydd Bifan a Beili Richard*) ond y mwyafrif llethol yn dynodi'n greadigol eu perthynas organig â'r mynydd. Os na fuoch chi ar y mynydd erioed, na hidwch, mae cerddi coeth-gryno – ffrwyth diwylliant yr Epynt gynt – dal yma i'ch tywys ar ei hyd a'i led. Ei drumiau a'i ddyffrynnoedd.

Dewch. Ehedwn. Gwelwn ...

Brynmelyn, Berth-ddu, Bwlch-gwyn,  
Cefn-bryn, Cefncyrnog, Ffrwd-wen,  
Rhyd-y-maen, Cefn-gwyn, Ynys-hir, Y  
Bwllfa, Abercyrnog, Abercriban,  
Aberysgir, Drain-duon, Dderw Fawr,  
Waun-fawr, Waun-lwyd, Brynmeheryn,  
Cwm-car, Glan-fraith, Blaentalar,  
Blaenegnant, Sychnant, Aberebwill,  
Llwyn-teg, Llwyn-coll, Llwyn-onn,  
Carllwyn, Hirllwyn, Graig, Carnau,  
Cefn-coch, Gelli-gaeth, Gythane,  
Llawrdolau, Ddôl-fawr, Pant-mawr,  
Glan-dŵr, Ffos-yr-hwyaidd, Gilfach-yr-  
haidd, Cefnioli, Gwybedog.

Dyma enwau byw'r gymdogaeth goll. Ac er fod tiriogaeth Pwyll ryw gam bach i'r gorllewin, â chymorth yr enwau hyn a'r llwybrau dyrys rhyngddynt y câi Iorwerth ei ffordd at Ddrws Annwn ei gof.

Ym mhob ymgyrch imperialaidd nid y fwled na'r ffrwydryn yw arf bwysicaf y concwerwr ond y map. Â'r ddyfais dawel hon y selia ei fuddugoliaeth. I'r perwyl hwn defnyddia ddau rym diffiniol. Y gallu i osod y llinellau er hawlio'r tir yw'r naill. Y gallu i ailenwi yw'r llall. Ar y map OS sydd â'r *Sennybridge Training Area* yn ganolbwynt iddo, mae'r

llinellau coch a glas yn dynodi'n glir iawn gymaint o ogledd Sir Frycheiniog Gymraeg ei hiaith a ddygwyd oddi wrthym, bedwar ugain mlynedd yn ôl. Ac nid oes angen chwyddwydr i weld fod y concwerwr heb gollir cyfle i ddefnyddio'r ail allu chwaith.

Tynnodd yr athronydd Derrida ein sylw at y twyll a all ddigwydd wrth gyfosod geiriau megis 'gwyn' a 'du', 'dyn' a 'dynes'. Awgrymodd mai'r hyn a ddylwn sgwennu yw '**GWYN**' a 'du', '**DYN**' a 'dynes' am mai dyna sy'n cynrychioli statws gwirioneddol y naill a'r llall. Ar fap yr OS enwau wedi'u hargraffu mewn print du, mawr a thrwchus yw *Gallows Hill, Larks Hill, Concrete*

### *The Story of Thomas Morgan*

Amongst the 219 who were turned out of their homes during the month of June, 1940, were two brothers: William and Thomas Morgan of Glandŵr Farm in the Ysgir Fechan valley. From the 1st of July onwards, artillery firing was a daily occurrence on the previously peaceful mountain. Despite the obvious dangers, one of the brothers – Thomas – would regularly walk from his new home, south of the range, along the tracks and pathways back to his old home. Here he would light a fire – to keep the house temperate ready for the family's return. For, like many of his neighbours, Thomas believed that once the war was over their mountain and its community would be returned to them. Alas, he hadn't realised that his home, and the 53 other homesteads, were lost for all time. He didn't realise this until, one day, having negotiated his well-trodden way up the Ysgir Fechan valley, he reached Glandŵr and stood absolutely still. For where the farm once stood there was but a pile of stone and rubble. A military officer approached him and delivered two short sentences before leaving: *We've blown up the farmhouse. You won't need to come here anymore.*

*Hill a Calibration Hill* ac ati. Mae crynswth yr enwau go iawn – *Crug Du, Bryn y Garn, Drum Ddu* a *Chefn Trum yr Hwch* ac ati - yno hefyd. Ond, i'w canfod, bydd angen pwyll ac amynedd a phenderfyniad. A pha ryfedd? Canys nid ein twyllo am ein statws yw cenhadaeth y map ond ei gadarnhau.

Ynteu ceisio ei gadarnhau. Canys cyfres o farciau ar bapur crin, marw yw eu map hwy. Er ein colled a'n galar, mae gennym fap amgenach. Map yr enwau. Map byw. Map sy'n cynnal hadau'r eirfa.

Pa werth hadau oni heuwn?

*Euros Lewis*

### *Rhagor am yr Epynt:*

Tudalen Facebook ATGOFION EPYNT

Drama DIWEDD Y BYD (Sianel YouTube Theatr Gydweithredol Troedyrhiw)

Y MYNYDD A DDIFLANWYD (Stori 9 mis olaf cymdogaeth yr Epynt mewn 5 pennod – [yPod.cymru](http://yPod.cymru) / AM / Soundcloud / Mixcloud / Apple podcasts)

Cyfri Trydar Cymdeithas y Cymod: @cymod

## REMEMBER EPYNT

30.6.20

*In June 1940, 219 Welsh people were turned out of their homes on the Epynt to create a firing range. The school at Cilieni and Babell chapel were closed; 54 farms were lost – a whole community...*

Now only shells  
till the soil at Llwynteg-ucha,  
at Waunlwyd, Abercriban and Cwm Car ...

Epynt's the haunt of artillery now;  
a red flag of warning flutters  
where a white sheet in a field would call a  
neighbour once,  
from Gelli Gaeth, Ffrwd Wen or Ddôl Fawr.

No-one will warm Babell chapel  
before the Christmas matins any more;  
stable-lamps will not write their paths  
through night-time fields,  
from Blaenysgirfawr, Cefncyrnog and Tir  
Bach.

For the ploughshares were beaten into  
swords  
and pruninghooks made into spears,  
so that war might be learnt here  
at Ffos yr Hwyled and Gwybedog,  
at Carllwyn and Llwyn onn ...

But though that forgotten threat  
re-echoes through Breconshire still,  
with no sign of ceasefire  
in Blaenegnant Isa,  
Cefn Ioli, or Disgwylfa,  
we'll keep those old names lit like lamps,  
continue tilling our memories from afar,  
and we'll sing in our tabernacle of  
testimony,  
of Pant mawr and Rhyd y maen,  
of Brynmelyn and Brynmeheryn...  
Beili Richard and Blaentalar...  
Llawrdole and Llwyn Coll...

**Ifor ap Glyn | National Poet of Wales**  
(translated by the author)  
<https://www.literaturewales.org/>

## Yr Arwydd

Mewn dosbarth cynganeddu rai blynyddoedd yn ôl rhoddwyd tasg i'r dosbarth i ysgrifennu cywydd. Y testun oedd 'Yr Arwydd'. Ar y pryd roeddwn yn pori drwy gyfrolau F. G. Payne – *Crwydro Sir Faesyfed*, ac yn synnu unwaith yn rhagor at benstyfnigrwydd ffermwr lleol a oedd yn gwrthod gwerthu tir i'r Pwyllgor Addysg ar gyfer ysgol newydd ym Mugeildy os na fyddid yn defnyddio'r ffurf hollol ddiystyr *Beguildy*. A'r syndod yw fod y Pwyllgor Addysg wedi ildio i'w gais.

Mae'n ymddangos fod tair ffordd wedi eu defnyddio i sillafu enw'r pentref, ac yn ôl un o'r bobl leol, gallai'r plant gael eu galw yn 'little bigs', 'little begs' neu'n 'little bugs'.

Ond ni roddwyd terfyn ar y dadlau. Roedd y Cyngor Cymuned lleol yn defnyddio'r ffurf *Beguildy*, a gwrthodwyd cais gan Gyngor Sir Powys yn 2007 i ddefnyddio'r sillafiad cywir, sef *Bugeildy*. Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno ysgrifennodd blogiwr yn galw ei hun yn 'Radnorian' sylwadau dan y teitl 'Silly Beggars', gan ddiweddu drwy ddweud:

... and if Beguildy Community Council want to carry on using their meaningless spelling mistake, well good luck to them. Radnorian will continue to use *Bugeildy*.

Tybed beth yw'r sefyllfa yno heddiw? Mae'n sefyllfa sy'n digwydd ledled Cymru bellach, wrth i enwau Cymraeg hanesyddol gael eu disodli. A dyna roes y syniad am gwblhau cywydd byr am 'Yr Arwydd'.

Dyma arwydd bröydd brau;  
Gweryd ein hiaith, a'i geiriau  
yn fud yng nghwm Tyfeidiog,  
ar Glud ac ar lethrau'r Glog.

Enwau o fro'r gorffennol;  
Enwau hen na ddaw yn ôl;  
Enwau coll, enwau'n y co';  
Enwau nad ydynt yno.

Aeth enwau hoff iaith y ne  
Yn ddagrau ym Muddugre.  
A mil enwau Maelienydd?  
Enwau'n sôn am echdoe sydd.  
A iaith hesb ydyw'r iaith hon  
A'r enwau yng Ngwerthrynion.

Yn fud yng nghwm Tyfeidiog,  
Ar Glud ac ar lethrau'r Glog;  
Ingoedd ein hiaith a'i hangau  
Yw arwydd y bröydd brau.

*Dafydd Whiteside Thomas*

## Honddu

Mae dwy afon *Honddu* ym Mrycheiniog, y naill yn tarddu ger y man uchaf ar Epynt, ac yn llifo i'r de i aberu yn Wysg o dan furiau castell Aberhonddu. Mae tarddiad y llall yn uchel ar y Mynydd Du (neu *Mynydd y Gader*, fel yr oedd yn amser Gerallt Gymro) ac yn llifo i lawr heibio Priordy Llanddewi Nant Hodni, cyn troi am y dwyrain a'r gogledd i ymuno ag Afon Mynwy ar y ffin â Lloegr.

Y ffurf gynharaf ar yr enw yw *Hodni*. Nid oes arwyddocâd i'r newid o 'i' i 'u' gan fod y sain wreiddiol yn debyg i sain 'u' yn Ffrangeg, ac wedi ymdoddi'n 'i' yn nhafodieithoedd y de. Mae'r meddalau o 'd' i 'dd', a thrawsosod 'n' ac 'dd' – *metathesis* – yn nodweddiadol o dafodiaith yr ardal, lle mae'r *cadno* cyffredin yn y de wedi troi'n *canddo* (lluosog *cenndi*). Gwelir enghraifft arall o drawsosod tebyg yn enw'r afon sydd yn llifo o Lyn Syfaddan i Afon Gwy, *Llynfi*, lle ceir Afon *Llyfni* yn y Gogledd.

Mae'n annhebygol iawn mai o'r ansoddair *hawdd* y mae'r enw'r ddwy afon yn tarddu: mae'r ddwy *Honddu* yn bell o fod yn *hawdd*. Yn y *Parochialia* Edward Lhuyd (1707), disgrifir afon Aberhonddu fel 'an ugly torrent which falls with much noise and violence into Usk'. Câi melin Aberhonddu, a oedd wedi ei lleoli o dan furiau'r castell, ei dinistrio'n aml gan lifogydd cochion yn byrlymu i lawr ceunant Honddu.

Byddai rhannu'r enw mewn ffordd wahanol, *Aber|rhodni*, yn cynnig dehongliad gwahanol. Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn diffinio *rhodni* fel 'segurwr, oferwr, dihiryn'. Mae'n enw cyffredin yng nghymoedd y De am y trê neu'r bws olaf o'r trefi mawr cyfagos – *trên y rhodnis*, *the rodnis bus* – sy'n llawn llanciau meddwon, yn dychwelyd adref o jolhoetian yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phen-y-bont, cwmni annifyr iawn i aelodau parchus y gymdeithas. 'Gas gen i ddod ar drên y rhodnis', meddai mam Ceinwen Thomas o Nantgarw.

Byddai cysylltu'r ail elfen â *rhodni* yn rhoi disgrifiad da o natur y ddwy afon hyn, afonydd cythryblus, gwyllt, a bychan mewn cymhariaeth â'r afonydd mwy eu maint – Wysg a Mynwy – y maent yn llifo iddynt.<sup>1</sup>

*Upper Chapel* a *Lower Chapel* yw enwau Saesneg dau bentref yn Nyffryn Honddu, ond nid yw'r enwau'n rhai hanesyddol. Bu cymysgu rhwng enw'r naill a *Phentre Dolau Honddu*, bellach yn adfeilion ar saethfa'r fyddin a ddisodlodd boblogaeth Epynt 80 o flynyddoedd yn ôl, gydag addewid o ddychwelyd y tir i'r ffermwyr ar ddiwedd y rhyfel, addewid a anghofiwyd yn syth wedyn. Newidiwyd enw'r ail bentref yn *Lower Chapel* mewn ymgais am gydbwysedd, er, yn wreiddiol, *Rhyd Ledan* oedd enw'r pentrefyn ger y bont, a *Llanfihangel Fechan* oedd enw'r plwyf, ac, ar lafar, enw'r pentref ei hunan yw *Llanfihangel*.

I'r dde o bentref Capel Uchaf mae fferm o'r enw *Gabalfa*, lle, yn ôl y traddodiad lleol, y cipiwyd Cynog, mab hynaf Brychan Brycheiniog, gan ymosodwyr, gan ei rwymo ac yna ei lofruddio ar Fynydd y Fan gerllaw. Cysegrwyd Merthyr Cynog gerllaw iddo yn ddiweddarach.

Ar y chwith heibio i Gapel Uchaf mae fferm *Alltarnog*, man geni'r cenhadwr Roger Price (1832–1900) a adwaenid fel 'Llew Mawr Bechuanaland' (Botswana bellach). Cyfieithiodd y Beibl i iaith y wlad, ac mae plac yng nghapel Llanfihangel i gofio amdano.

Ychydig yn is i lawr mae *Plasty Castell Madoc*, man geni'r beirniad sinema Dilys Powell. Nodir yr enw gwreiddiol mewn arysgrif ar y tŷ: 'Tŷ Newydd T[Thomas] P[Price] 1588'. Daeth y lle yn enwog ym

---

<sup>1</sup> Gol. Sylwer, fodd bynnag, fod GPC yn esbonio'r enw *rhodni* fel gair diweddar a fenthyciwyd o'r Saesneg *rodney*, sy'n ymddangos gyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ôl tystiolaeth yr *Oxford English Dictionary*.

Medi 1900, pan freuddwydiodd Mrs Hamer, gwraig y garddwr, am yr union fan lle'r oedd corff Tommy Jones, yn gorwedd – bachgen pum mlwydd oed o'r Rhondda a fu ar goll ers 4 Awst ar ei ffordd i weld ei fam-gu. Aeth ei gŵr â hithau i fyny i'r Bannau gan ddarganfod corff y bachgyn ar ysgwydd Pen-y-fan, lle codwyd cofgolofn iddo'n ddiweddarach.

Rhwng y ddau bentref ceir nifer o ffermydd yn cynnwys yr elfen *Beili* – *Beili Brith*, *Bili Bach* – sef gair Brycheiniog am glos fferm (lluosog *beiliau*), ac enw a welid yn frith dros yr ardal a'r cyffiniau. Yn ôl chwedloniaeth yr ardal, yng nghaeau Beili Brith y gwersyllodd milwyr Harri Tudur dros nos ar eu ffordd o Benfro i Bosworth, lle y cipiodd Harri Tudur coron Lloegr. Oherwydd y cysylltiad ag Iwerddon trwy Brychan, awgrymwyd mai'r gair Gwyddeleg *baile* am fferm neu dref sydd yma, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i ategu hynny.

Ychydig cyn cyrraedd Llanfihangel, mae *Tai Hirion* ar y dde, lle cuddiai Salman Rushdie ar ôl i'r Ayatollah Khomeini osod ffatwa arno am ei lyfr *Yr Adnodau Satanaidd*.

Ar fryn yn y pentref mae *Cilhywi*, un o nifer o dai ym Mrycheiniog ac iddo enw rhamantaidd.

Heibio i bentref Pwllgloyw mae eglwys hynod o ddiddorol yn Llandyfaelog Fach. Mae maen o'r ddegfed ganrif yn yr eglwys yn dangos dyn arfog, a'r arysgrif *Briamail Flou*, a ddehonglwyd gan S. Baring-Gould fel *Briomaglus Flavus*, yn ein hatgoffa o Lanfriafel yn Swydd Gaerloyw a hefyd o Landyfrïog yng Ngheredigion. Ar y wal mae set o glychau y gall ymwelwyr eu canu. Yn adfeilio yn y fynwent gwelir beddadail sydd bron yn danddaearol, lle câi plant yr ardal wefr ac ias wrth weld eirch a sgerbydau'r teulu Watkins o Ben-oer, plasty filltir i'r gorllewin.

I fyny'r rhiw heibio i'r bont mae Garthbreni a'i heglwys amddifad, un o eglwysi Dewi Sant a enwir gan y bardd Gwynfardd Brycheiniog yn y ddeuddegfed ganrif. Gwerthwyd yr adeilad gan yr Eglwys (a llawer o eglwysi gwledig eraill ledled Cymru), gydag amod yn gwahardd unrhyw sôn am gynswyddogaeth grefyddol y lle.



Eglwys Garthbreni  
llun Philip Halling: <https://www.geograph.org.uk/photo/3451810>

*Tyfaelog*, nid *Maelog*, yw'r sant, nawddsant eglwys hynod o ddiddorol (bellach yn dŷ preswyl) *Llandyfaelog Tre'r-graig* ger Talgarth, hefyd *Llandyfaelog* ger Cydweli.

Rhwng Llandyfaelog a Llan-ddew, ar ochr arall yr afon, mae ffermydd *Y Peutyn-glas*, *Y Peutyn-du* a'r *Peutyn-gwyn*: enwau'n cofnodi ystâd Normanaidd a'i pherchennog, Peyton. Roedd Peyton yn un o ddilynwyr Bernard de Neufmarché, goresgynnydd Brycheiniog ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg, sydd â'i gastell uwchben y rhyd – *Rhydbernard* – ar draws Afon Wysg. Mae Richard Morgan, yn ei gyfrol hynod o ddiddorol *Place-Names of Glamorgan*, yn nodi mai enw rhywun o Poitou yn Ffrainc a geir yma, ac iddo hefyd fod yn enw ar dir yn perthyn i Abaty Sistersaidd a ddiplannodd dan dwyni Cynffig ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Ychydig cyn cyrraedd tref Aberhonddu, mae heol ar y chwith yn arwain dros yr afon yng Nghwm Anod at *Lan-ddew*. Er mai Dewi yw nawddsant yr eglwys, yr enw gwreiddiol oedd *Llan-Dduw* a dyna sut yr yngenir yr enw'n lleol. Dyma lle roedd palas Gerallt Gymro pan oedd yn Archddiacon Aberhonddu, ond ychydig iawn o'r adeilad hwnnw sydd wedi goroesi. O dan fwa yn y wal gerllaw mae *Ffynnon Esgob Gower* sy'n dyddio o tua 1340. Roedd yn adnabyddus i bobl Aberhonddu fel 'Dociau Llan-ddew', gan fod pobl ddi-waith y dref yn gweithio yno!

*This article discusses some of the place-names in the Honddu Valley in Breconshire.*

Brynach Parri

## Y daith i *Mapio Cymru*

Mae'n bleser a braint i gael y cyfle hwn i'ch cyfarch chi eto gyda hanes *Mapio Cymru*, wedi i mi gwrdd â sawl un ohonoch yng nghynhadledd y Gymdeithas yng Nghaerdydd y llynedd.

Ers cychwyn ein prosiect yn 2017 rydym ni wedi:

- sefydlu [openstreetmap.cymru](http://openstreetmap.cymru)
- esbonio i bobl sut mae ychwanegu at ein cronfa ddata drwy Open Street Map: [osm.org](http://osm.org)
- ymweld ag ysgolion i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i fapio Cymru!
- cyfrannu'n gadarnhaol i'r drafodaeth fywiog ar lein ynglŷn ag enwau lleoedd.

Cynllun grantiau 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru a sgwrs ffôn gydag Adran Gymraeg y Llywodraeth a esgorodd ar *Mapio Cymru*, sef prosiect i greu map ar lein o Gymru gyfan, gan ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg.

Roeddwn wedi arfer â phitsio syniadau i BBC Radio Cymru – fel y gwnes i'n llwyddiannus, er enghraifft, gyda rhaglen i groesawu gwrandawyr yr orsaf genedlaethol i Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy yn 2016, sef *Wedi'i phennu yn y Fenni*, a rhaglen arall, *Bydded hysbys*, i gofio doniau Maffia Mr Huws a Ffa Coffi Pawb. Daeth y cyfle i recordio rhaglen am Sir Fynwy yn sgil colofn fisol dan enw 'Dai Lingual' yn nhudalennau Cymraeg papur newydd *The Glamorgan Gem*, a oedd yn trafod tarddiad enwau lleoedd Cymraeg Bro Morgannwg.


Er nad oedd fawr o ddiddordeb gan Lywodraeth Cymru yn yr hanner dwsin o syniadau cyntaf a oedd gen i'n wreiddiol ar gyfer y grant, roeddwn yn ddigon hy i ofyn y cwestiwn tyngedfennol, sef 'Beth



hoffech chi weld?'. Yna cafwyd sgwrs gyffrous am y posibilrwydd o greu SatNav Cymraeg a arweiniodd at [openstreetmap.cymru](http://openstreetmap.cymru).

Parodd hyn imi feddwl, pwy o blith fy nghyfoedion oedd yn mwynhau mapiau? Yr ateb oedd Ben Proctor, y gwirfoddolwr *Open Street Map* o Henffordd. Felly'r alwad nesaf ar y daith i greu *Mapio Cymru* oedd galwad i Ben. Wedi paned o goffi gyda Ben, ac yna un arall gyda'r datblygwr ifanc Carl Morris, roedd y tîm yn barod i ddechrau ar y gwaith.

Erbyn 2018 roedd *Mapio Cymru* wedi cael sylw yn y papur cenedlaethol *Y Cymro* yn ogystal â bod yn destun sgwrs gyda Gerallt Pennant ar BBC Radio Cymru. Oherwydd y diddordeb mewn creu map Cymraeg ar lein o Gymru a allai arwain at greu SatNav a siaradai Gymraeg, daeth y cyfle hefyd i gyflwyno hanes y gwaith i gynulleidfa a oedd yn cynnwys Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg.



Mae yna gyfle i aelodau Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru hefyd gyfrannu tuag at brosiect *Mapio Cymru* a bod yn rhan o'r fenter i greu map ar lein hynod ddefnyddiol a llawn gwybodaeth ar [openstreetmap.cymru](http://openstreetmap.cymru). Fel cymdeithas mae gennych chi arbenigrwydd a gwybodaeth eang am enwau lleoedd ar draws Cymru, a allai gyfoethogi cynnwys *Mapio Cymru* yn fawr. Dyma gyfrwng cyffrous newydd i drosglwyddo'r wybodaeth honno'n ddiogel i'r genhedlaeth nesaf, cyfrwng fydd ar lein ac ar gael yn ddi-dâl drwy'r amser wrth gwrs!

Beth sy'n gyffrous am ein menter yw ei bod yn rhoi'r cyfle i wybodusion yn y maes i ychwanegu at ein cronfa ddata trwy [openstreetmap.org](http://openstreetmap.org). O wneud hynny bydd ein map yn cael ei ddiweddarau dros nos i arddangos yr enw Cymraeg y byddwch chi wedi ei ychwanegu – sef gwasanaeth tebyg i Google Maps, ond ei fod yn defnyddio data agored ac yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr.

Gobeithio hefyd y bydd cyfle i chi ddod i adnabod y wynebau sydd y tu ôl i'r prosiect wrth i ni geisio trefnu taith gerdded (yn ddibynnol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru yn naturiol) ar ddydd Gwener, 14 Tachwedd, i fyny Mynydd y Garth i ddathlu tair blynedd o *Mapio Cymru*. Mynydd y Garth oedd testun ffilm Hugh Grant, *The Englishman who went up a hill but came down a mountain*, ac yn wir mae'n lleoliad addas iawn gan mai ychwanegu enwau mynyddoedd (ac o bosib ambell i fryn) fydd ein ffocws ar gyfer 2020/2021. Byddem yn ddiolchgar iawn os cewch gyfle i ddiweddarau ein map, naill ai ar ffôn symudol neu drwy gysylltu â'n tîm technegol gyda phen a phapur! Os am gysylltu drwy e-bost, ein cyfeiriad yw: [mapioCymru@dailingual.com](mailto:mapioCymru@dailingual.com).

Dyma ni felly'n ceisio dathlu a rhoi sylw i enwau Cymru drwy gyfrwng y dechnoleg newydd, er mwyn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn wir, dyma gyfle i gyfrannu'n ddyfeisgar i un o'n trysorau mwyaf, sef ein henwau lleoedd, sy'n allwedd bwysig i'n hanes diwylliannol. Dyma hefyd gyfle euraid i ddod i adnabod ein hardaloedd yn well trwy fynd am dro a chofnodi enwau lleoedd Cymraeg at ein sylw, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod ni'n dilyn y cynghorion diweddaraf o ran cadw'n iach drwy gerdded yn gyson.


*Mae gan brosiect 'Mapio Cymru' darged o ddechrau 4 grŵp mapio cyn Ebrill 2021, felly cysylltwch, os gwelwch yn dda, os hoffech chi ymuno ag un o'n grwpiau yn y gogledd, y canolbarth, y gorllewin neu'r de-ddwyrain. Wyn Williams, 16 Lewis Rd, Llandochoau Fach, Penarth, Bro Morgannwg CF64 2LW. ☎ 02920 707 469, e-bost: [mapioCymru@dailingual.com](mailto:mapioCymru@dailingual.com)*

Gallwch hefyd ein cefnogi'n ariannol, neu ddod yn gefnogwr, drwy ein tudalen we newydd: <https://www.buymeacoffee.com/mapiocymru>

*Wyn Williams o gwmni Dai Lingual*

## ADOLYGIAD

*Hen Enwau o Feirionnydd*, Glenda Carr, Gwasg y Bwthyn, 2020, £10.95, tt. 269  
ISBN: 978-1912173327



Dyma'r trydydd llyfr yn y gyfres 'Hen Enwau' gan Glenda Carr. Cyhoeddwyd eisoes *Hen Enwau o Ynys Môn* a *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd* ac mae hwn yn gymar teilwng iawn i'r ddau waith ysgolheigaidd hynny. Mae'n gyfrol swmpus ac mae ôl ymchwilio, llafurio a myfyrio dwys yma, ac mae'r arddull rwydd wedi esgor ar waith y gellir un ai bori ynddo'n ysbeidiol, neu ei ddarllen o glawr i glawr (fel y gwneuthum i). Ar wahân i'r ymchwilio trylwyr i ffurfiau cynnar ac i drafodaethau blaenorol, mae yma bwysu a mesur meddylgar. Mae Cymreictod iach y llyfr yn bleser i'w ddarllen gyda chyfeiriadau lu at gymeriadau llenyddol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r enwau lleoedd. Yn ogystal ceir dyfynnu helaeth o waith y beirdd canoloesol sy'n crybwyll yr enwau, ac felly mae'r llyfr yn fwy na chasgliad o drafodaethau geirdarddiadol moel ac yn gyfoethog o'r cyd-destunoli diwylliannol sydd, gwaetha'r

modd, ar goll o waith rhai toponymegwyr nad ydynt wedi eu trwytho yn yr un modd yn y diwylliant brodorol.

Detholiad sydd yma, wrth reswm, byddai llunio astudiaeth hollgynhwysol yn orchwyl anferthol. Yr hyn a geir yw ymdriniaeth ag enwau mwy dyrys – *Aberserw, Arthog, Branias, Brondanw, Gwanas, Meifod, Tryweryn* ac yn y blaen; ni fu angen trafod enwau y mae eu tarddiad eisoes yn hysbys, fel *Y Bala*, ac sydd wedi eu hesbonio'n ddigonol mewn manau eraill. Ceir yma drafodaethau cryno ond manwl, a'r enwau wedi eu gosod yn nhrefn yr wyddor gyda map o'r sir yn y blaen. Mae'r llyfr yn gadarn yn nhraddodiad mawrion y maes – Melville Richards, Bedwyr Lewis Jones ac eraill – ac mae'n rhyddhad gweld y fath ymdriniaethau'n parhau i ymddangos. Un nodwedd ddifyr yw'r pytau ar themâu perthnasol fel 'Bwbachod', 'Creaduriaid Dof a Gwyllt' a 'Cotel a Chwt, y Caeau Bychain'. Nid yw Glenda Carr yn osgoi nodi bod rhai enwau'n anhysbys eu tarddiad a gedy'r fath gwestiynau'n agored.

Egyr y llyfr gyda chyfeiriad at sylw bachog Ifor Williams mai ffyliaid yn unig sy'n ymwneud ag enwau lleoedd, a rhaid i bob toponymegwr gofio hyn wrth fentro i'r maes. Ond mae'r astudiaeth wych hon yn dyst i'r ffaith fod doethion a gwybodusion hefyd yn fodlon mentro.

Prynwch y llyfr hwn, mae yma gyfoeth deallusol, dysg eang a gweledigaethau cyson a gobeithio y cawn, maes o law, gyfrol neu ddwy arall.

*Guto Rhys*

## ADOLYGIAD

*Enwau Cymru ac Enwau'r Cymry: y berthynas annatod rhwng y wlad a'i phobl,*

D. Geraint Lewis, Gwasg Carreg Gwalch, 2020, £8.50, tt. 198

ISBN: 978-1845277529

Dyma lyfr bach twt sy'n tynnu at ei gilydd linyddau onomasteg, megis enwau lleoedd ac enwau personol, sy'n deillio o'r iaith Gymraeg, gan gynnig cyflwyniad bach hwylus i'r maes.

Mae brwdfrydedd a gwir ddiddordeb yr awdur mewn enwau, hanes, a'r iaith Gymraeg yn sail amlwg i'r gwaith hwn, a datgela mai enw anarferol ei gefnder, *Gurwyn*, a daniodd ei ddiddordeb yn y lle cyntaf. Sylwodd ar batrwm a welai yn ei bentref genedigol, Ynys-y-bwl, lle byddai glowyr yn symud i mewn i'r ardal gan 'arddel eu hunaniaeth yn yr enwau a roddent ar eu plant' (td. 173). Edrychodd ar fapiau Arolwg Ordnans, a gwneud y cysylltiadau rhwng toponymeg, megis enwau afonydd a mynyddoedd, ac enwau personol. Rwyf wedi sylwi ar y ffenomenon hon yn fy nheulu innau, ac rwy'n siŵr y bydd y bennod hon o ddiddordeb mawr i sawl darllynydd ac iddo stori deuluol debyg.


Honna'r awdur fod patrymau enwi o'r fath yn 'tystio i'r berthynas unigryw, Gymraeg, sy'n bodoli rhwng enwau Cymru (y wlad) ac enwau'r Cymry (y bobl)' (td. 173). Ond mewn gwirionedd, mae hon yn ffenomenon fyd-eang, fel y dangosodd C. Hough (ed.), *The Oxford Handbook of Names and Naming* (Oxford, 2016). Roeddwn hefyd braidd yn amheus am y bennod am 'Enwau plant mwyaf poblogaidd'. Ond yn sicr, dyma lyfr bach diddorol a man cychwyn da i unrhyw un sydd yn ymddiddori mewn enwau a thraddodiadau enwi yng Nghymru, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Sara Louise Wheeler*

## Rhyd Cellfin

Yn Eglwys Llandeilo Fawr, Sir Gaerfyrddin, mae modd gweld, yn ystod yr haf fel rheol, gopiau digidol o rai o'r gweithiau celf mwyaf trawiadol sydd wedi goroesi o'r Oesoedd Canol cynnar. Un enw ar y gyfrol sy'n cynnwys y gweithiau gwreiddiol yw Efengylau Llandeilo.


Dyma flas ar ddwy dudalen:



Am gyfnod o ryw ddau gant o flynyddoedd, roedd Efengylau Llandeilo yn eiddo i'r gymuned grefyddol a gafodd ei sefydlu gan Teilo yn Llandeilo Fawr. Maent yn perthyn i'r cyfnod c.730 O.C. Byddai'r Efengylau wedi'u cyfrif ymysg eiddo mwyaf gwerthfawr y fynachlog yno, ac wedi eu gosod ar allor a gysegrwyd i'r sant. Byddai iddynt ran anrhydeddus wrth ddathlu gŵyl y sant. Erbyn diwedd y ddegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar ddeg, roedd yr Efengylau yng Nghaerlwythgoed (Lichfield), Swydd Stafford, ac yng ngofal cadeirlan y Santes Fair a Sant Chad.

Byddai llwon a fyddai'n cael eu tyngu ar allor Teilo, ynghyd â chofnodion o gytundebau neu ffiniau a fyddai'n cael eu cofnodi mewn dogfen debyg i hon, yn cael eu hystyried yn ymrwymiad cysegredig a gwae a fentrau eu hanwybyddu.

Yn y lleoedd gwag ar y tudalennau (fel ar y dudalen nesaf) mae amryw fanylion am eiddo ac am fusnes y gymuned yn Llandeilo wedi'u nodi mewn llaw lai ffurfiol. A hwythau'n ganolfannau dysg cydnabyddedig, mynachlogydd fyddai'r mannau naturiol i greu ac i ddiogelu cofnodion pwysig. Mae rhai o'r cofnodion yn y gyfrol mewn Lladin ac amryw ohonynt yn Gymraeg. A dyma'r enghreifftiau cynharaf o'r Gymraeg sydd wedi goroesi. Lladin oedd iaith dysg, wrth gwrs, ond yn y cyfnod cynnar rŷn ni'n sôn amdano roedd yr ieithoedd brodorol yn dechrau ymddangos ochr yn ochr â'r Lladin. Hynny, mae'n siŵr, sy'n egluro'r pythiau Cymraeg sy'n ymddangos yn Efengylau Llandeilo.



Mae'r nodiadau hyn, sy'n ymddangos ar ymyl y dalennau, wedi eu rhifo o 1 i 8; er mwyn hwylustod wrth gyfeirio atynt: Chad 1, Chad 2 ac yn y blaen, ymlaen at Chad 8. Mae amryw o'r nodiadau yn awgrymu cysylltiad ag Ystrad Tywi, sef rhan ddwyreiniol Sir Gaerfyrddin. Chad 6 yw'r nodyn sy'n berthnasol i'r draffodaeth hon. Mae'r nodyn hwnnw'n ymwneud â phlwyf Llandybie, gwta chwe milltir i'r de o Landeilo Fawr ac yn cael ei briodoli i gyfnod tua 850.

Mae Chad 6 yn cofnodi ffiniau a braint Maenor Meddyfnych – stad uchelwrol a'i ffiniau'n cwmpasu tiriogaeth o ryw ddeuddeng milltir sgwâr. Yn seiliedig ar fap gan yr Athro Glanville Jones a chyda chymorth Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, gallwyd sefydlu cyfeirnod grid ar gyfer Rhyd Cellfin, sef SN6452 1623.

**RHYD CELLFIN** Un o nodweddion daearegol dwyrain plwyf Llandybie yw tywodfaen silica wedi'i amgylchynu gan siâl. Mae'r silica yn weladwy. Cyfeirio at hynny a wna'r elfen **cell(t)** 'silica' yn yr enw. Mae'r tywodfaen silica yn brigo yn Afon Llchwyr ac ar draws y gefnen yng ngyffiniau'r **rhyd** a'r clwb golff. Yn yr ardal hon mae'r creigiau wedi plygu ar ffurf 'W' (fel y gwelir ar dudalen 15); mae'r rhyd ac adeiladau'r clwb golff o fewn terfynau ail fforch yr 'W' tua'r de-ddwyrain.

Ni ddechreuwyd cwaro silica yma tan y ddeunawfed ganrif a'i ddefnyddio, bryd hynny, i wneud gwydr ac i leinio'r tu mewn i ffwrneisi yn y diwydiant haearn.

Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod gan sgriffellwr Chad 6 wybodaeth fanwl am nodweddion daearegol tirwedd Meddyfnych yn y nawfed ganrif.

**rhyd**<sup>1</sup> GPC *eb.g. ll. rhydiau, rhydau, rhydoedd, ?rhydon.*

Lle bas mewn afon, &c., y gellir ei groesi ar droed, ar gefn ceffyl, &c., hefyd yn *ffig.*; culfor:

**cell(t)** GPC *eg. ll. -au, -ion.*


Callestr; math o fwyn gwyn neu risialaidd sy'n elfen mewn creigrisial, tywod, &c.; creigrisial; tanfaen; defnydd adamantaid neu ddjarhebol o galed:



**min** GPC eg. ll. *minau, miniau, minion, minoedd.*

Ymyl, ochr, glan, ceulan, ael, genau (sach); ffin, goror, cwr; trothwy (blwyddyn, tymor, &c.):

**Rhyd Cellfin** ‘rhyd gerllaw brigiad cellt’



Rwy'n ddiolchgar i Dr John Davies, Llandysul, a Felicity Sage o Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed am eu cymorth wrth lunio'r sylwadau hyn. Gweler hefyd sylwadau Richard Morgan ar *Dyffryn Cellwen* yn *Place-names of Glamorgan* (Cardiff, 2018), 70.

*The geology here is silica sandstone surrounded by shale. Welsh cell refers to the silica and silica abounds in the immediate area and is visible. The silica sandstone outcrops in Afon Llŵchwr and on the slopes around Rhyd Cellfin and the Golf Club. In this area the rocks have folded to a 'W' shape; the ford and the golf club building are bounded by the second fork of the 'W' towards the south east.*

*Silica was not quarried here until the eighteenth century and was used to make glass and bricks to line furnaces in the iron industry.*

*Rhyd Cellfin with rhyd 'ford', cell 'silica', and min 'edge' means 'ford near the silica outcrop'.*

*I am grateful to Dr John Davies, Llandysul, and Felicity Sage of Dyfed Archaeological Trust for their assistance with this note. See also Richard Morgan on Dyffryn Cellwen in *Place-names of Glamorgan* (Cardiff, 2018), 70.*

*David Thorne*

## **Enwau'r Gogarth**

Yr hen enw Cymraeg ar y Gogarth, ger Llandudno, oedd *Cyngreawdr* neu *Gyngreawdr Fynydd*. Tua'r flwyddyn 1160 fe ddisgrifiodd y bardd Gwalchmai ap Meilyr y tonnau'n curo yn erbyn *Cyngreawdr fynydd* a *Morfa Rhianedd* gerllaw:


Dyogladdd gwenyg gwyn Gyngreawdr fynydd,  
Morfa Rhianedd Maelgwn rebydd.

[*Mae tonnau gwynion yn curo yn erbyn mynydd Cyngreawdr, /  
Morfa Rhianedd a fu'n eiddo i'r brenin Maelgwn.*]

Y Gogarth yw'r enw a ddefnyddir yn arferol erbyn hyn, ond honnir gan rai mai *Mynydd Llandudno* yw'r hen enw cywir. Enwau eraill a ddefnyddir yw *Y Gogarth Fawr*, *Pen y Gogarth*, *Pen y Gwylfryn*, *Yr Orm* yn ogystal â *Chyngreawdr*.

## Enwau rhai o ffynhonnau'r Gogarth

**FFYNNON LLYGAID** Mae'r ffynnon hon wedi bod yn hysbys ers blynyddoedd fel ffynnon feddyginiaethol oherwydd y gred fod ei dyfroedd yn lles i'r llygaid. Bu adeg pan gludid ei dyfroedd i rai o drefi Lloegr i feddyginiaethu llygaid ac fe'i profwyd yn fuddiol.



**FFYNNON CASEG** Ffynnon oedd hon i ddisychedu ceffylau a dynnai'r coetsys yn yr hen amser, ar y reid o dros bum milltir o gylch y Gogarth. Fe'i lleolir ym mhen eithaf gogledd-orllewin y Gogarth Fawr ac fe'i darganfuwyd wrth adeiladu'r 'Marine Drive' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**FFYNNON FADOG** Pwy oedd Madog? O bosibl Madog o blasty Gloddaith, neu ei dad, Madog ab Iorwerth Goch o'r Creuddyn a oedd yn ŵr o bwys yn y drydedd ganrif ar ddeg. Y Gogarth oedd ei 'ranch' ceirw ac mae rhan o'r Gogarth yn cael ei galw'n *Hwylfa'r Ceirw* hyd heddiw.

**FFYNNON TUDNO** Pwy oedd Tudno? Mab Seitheny'n ap Seithyn Seidi, mab i un o Dywysogion Dyfed. Roedd yn frawd i Gwynhoedl, Senewyr a Thutglyn. Yn ôl y chwedl, dihangodd o Gantre'r Gwaelod pan foddwyd y lle a mynd i fyw i Fynachdy Bangor Is-coed. Oddi yno symudodd i fyw i gell yn Ogorch Llech ar y Gogarth, cyn adeiladu cell ger Ffynnon Tudno.

**FFYNNON POWELL** Flynnyddoedd yn ôl, roedd amaethwr o'r enw Powell a'i deulu'n byw gerllaw'r ffynnon hon. Un haf, oherwydd prinder glaw, fe ddioddefodd y gwartheg, y defaid a'r teulu gryn orthrwm. Gwrthododd y cymdogion eu helpu i gael cyflenwad o ddŵr ac fe'u rhybuddiwyd rhag mynd ar gyfyl yr un ffynnon ar yr Orm. Wedi ystyried y sefyllfa, penderfynwyd gweddio ar Dduw am ymward. Aeth y teulu cyfan i eglwys Tudno gerllaw gan weddio am gymorth dwyfol. Yna'n ôl i'w

cartref â chalonnau trist ... ond er mawr lawenydd, roedd ffynnon o ddŵr bendigedig wedi tarddu gerllaw rhiniog y tŷ. Roeddynt mor hapus a glynodd yr enw *Powell* ar y ffynnon hyd heddiw.

**FFYNNON WEN** Credir bod y ffynnon wreiddiol yn llawer uwch i fyny'r Gogarth tua Phen Dinas na ble mae nawr fel ffownten ger trac y tram. Roedd Pen Dinas yn gaer cyn cyfnod y Rhufeiniaid a chredir mai o'r Ffynnon Wen y byddent yn cael dŵr. Hefyd, gan fod *Carreg Siglo* gerllaw, credai John Roberts (a ysgrifennai golofn ar hanes Llandudno yn y *Llandudno Advertiser* yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf) y byddai'r derwyddon yn defnyddio dŵr o'r ffynnon ar gyfer eu defodau ac i'r ffynnon gael yr enw Ffynnon Wen fel symbol o burdeb.

**FFYNNON FICTORIA** Y tebygrwydd yw iddi gael ei henwi er clod i'r frenhines. Lleolwyd hon ar ochr orllewinol y man lle y mae Gorsaf Tram yr Orm. Mae'n ffynnon ddofn a chanddi gyflenwad helaeth o ddŵr.

**FFYNNON YR ODYN** Roedd *Ffynnon yr Odyn* ar safle tŷ or enw *Creigle* yn Rhodfa'r Eglwys. Fe'i gelwid hefyd gan rai yn *Ffynnon Siafft yr Odyn*. Esboniodd John Roberts, Bryn Celyn, yn y *Llandudno Advertiser*, 13 Tachwedd, 1909, fod chwarel galch y tu ôl i Creigle, ers talwm a defnyddid y galchfaen ar gyfer adeiladu, a'r calch ar gyfer trin y tir. Hefyd, roedd yna hen siafft gopr, ac wedi iddi orffen cael ei defnyddio ar gyfer y pwrpas hwnnw fe lanwodd â dŵr a throï'n ffynnon.

## Enwau eraill

**LLWYBR Y MYNAICH** y gelwid y llwybr a ddefnyddid gynt i gyrraedd eglwys Tudno, ac mae'n ddigon posibl fod mynachod Abaty'r Gogarth wedi defnyddio'r dŵr o Ffynnon Llygaid a oedd ar eu ffordd.


**LLETY'R FILIAST** Cromlech yw hon ar ran o dir a elwir yn **FAES Y FACRELL** 'Gast milgi' yw *miliast*. Mae sawl esboniad am darddiad *Maes y Facrell*, ac un o'r mwyaf tebygol yw *Maes y Fagwyr Allt* (a *magwyr* o bosibl yn gyfeiriad at fryn caerog). Esboniad arall a roddir yw bod 'macrell' yn tarddu o'r enw *Marcellus* (drwy drawsosod *rc > cr*), enw cadfridog Rhufeinig. Mae'n go annhebygol mai'r pysgodyn *macrell* sydd yma, gan y buasai wedi bod yn rhaid cario'r pysgod i ben y mynydd i'w sychu! Posibilrwydd llawer symlach yw mai *Maes y Fachell* ('maes cilfachog') yw'r tarddiad.

Dyma enwau yn ymwneud ag anifeiliaid (gweler y map ar dud 18 am eu lleoliad): *Ogof Pry Llwyd*, *Cilfin Ceirw*, *Ffrith Ewigod*, *Pen Llyffant*, *Ogof Colomennod*, *Lloches yr Afr*, *Bwlch Llwynog*, *Braich y March*, *Ogof yr Eliffant*, *Llwyn yr Ychen*, *Ogof Arth*, *Llwybr y Mulod*.

### A BRIEF REVIEW OF THE HISTORY OF LLANDUDNO.

(By Mr. John Roberts, Bryn Celyn).

Ffynnon-yr-Odyn (The Kiln's Well). This well formerly stood in the grounds of Craigle, Church Walks; its name is suggestive. In former times much lime stone was burned, and in this vicinity a quarry to raise stones for this purpose was situated directly behind the mansion of Craigle. Years ago, and before Llandudno began to develop as a health resort, lime kilns were situated near this quarry. Most of the lime in those days was used for agricultural purposes in the district; the lime from these kilns was considered of very fine quality. Why this well was called by this name we are not in a position to decide, but probably because of its close proximity to these lime kilns.



**OGOF HORNBY** Collwyd y brig Hornby ar ddydd Calan, 1824. Roedd yn hwylio o Lerpwl am Dde America, a daeth y diwedd wrth iddo geisio rowndio Trwyn y Gogarth. Hyd heddiw, gelwir safle'r drychineb yn *Ogof Hornby*. Dim ond un dyn, John Williams, a achubwyd: fe'i taflwyd i'r lan, a llwyddodd i ddringo i fyny'r clogwyni i ddiogelwch. Treuliodd weddill ei oes waith yn y mwynefydd copr yn Llandudno.

**CERRIG UFFERN** Mae'r rhain i'r gorllewin o Ogof Hornby, yn greigiau anferth wedi'u dadleoli o'r clogwyni a'u pentyrru ar y traeth lle cânt eu curo gan donnau enfawr.

**OGOF GANOL DYDD** Mae'r enw'n dwyn i gof draddodiad hynafol fod pelydrau'r haul yn disgleirio yn syth i'r ogof am hanner dydd yn y gwanwyn a chyhydros yr haf.

**OGOF Y COLOMENNOD** Fe'i lleolir ym Mhorth yr Helyg, lle sefydlwyd chwarel i gloddio cerrig ar gyfer adeiladu Pont Telford, Conwy, a'u danfon yno mewn cwch oddeutu 1820. Mae'n hawdd cyrraedd y silff galchfaen lydan sy'n hoff leoliad gan bysgotwyr ar gyfer pysgota môr.

*The article discusses some of the interesting place-names on Ormes Head, Llandudno, especially names of wells and names associated with animals.*

Gareth Wyn Pritchard

## Beth yw tarddiad y gair Saesneg *heft*?

Mae *heft*, *heaf*, *haft*, *hefting*, *heafing* a *hefted* yn eiriau Saesneg sy'n cael eu ddefnyddio ar lafar gan ffermwyr sy'n magu defaid ar diroedd cymharol uchel mewn rhannau o Loegr a de'r Alban. Fel enw, mae *heft* (a'r amrywiadau *heaf* a *haft*) yn golygu cynefin, sef rhan neilltuol o ddaear fryniog neu fynyddig agored, di-glawdd ar gyfer diadell benodol. Fel berf, ei ystyr yw rhoi diadell yn ei chynefin a chael yr ŵyn i ddod yn gyfarwydd â rhan neilltuol o'r mynydd fel y mamogau.

Yn ne'r Alban, defnyddir y ffurf *heft* yn ardaloedd bryniau Galloway a bryniau Cheviot (<https://bit.ly/3mavJ0W>). Yn Lloegr, ymddengys fod y gwahanol ffurfiau a nodir yn cael eu defnyddio yn Nyfnaint a Gwlad yr Haf (Dartmoor ac Exmoor) ac yn y Penwynion (Pennines) a'u cyrion o Ardal y Copaon (Peak District) hyd at ffin yr Alban. Ceir tystiolaeth o'u harfer mewn ardaloedd yn Northumberland, Swydd Efrog, Swydd Durham, Swydd Derby, Swydd Gaerhirus a Chymbria (gweler isod). Yn Nyfnaint, diddorol yw'r defnydd o'r gair *hefted* yng nghyd-destun perthynas pobl â'u hardal, yn yr ystyr o fod ynghlwm wrth eu cynefin (<https://beaford.org/hefted>).

Mae'r *English Dialect Dictionary Online* yn nodi defnydd o'r gair *heft* yn nhafodiaith Cymbria ac mewn Sgoteg, gan nodi mai ei ddiffiniad fel enw yw 'an accustomed pasture', ac fel berf, 'to accustom sheep to a new pasture'. Ei ddiffiniad fel enw yn y *Dictionary of the Scots Language* yw 'a pasture which sheep have become familiar with and continue to frequent, the attachment of sheep to a particular pasture', ac fel berf, 'to accustom (sheep or cattle) to new pasture by constant herding to prevent them from straying'. Mae'r nodyn ar y ffurf *haft* yn y *New English Dictionary* yn dweud ei fod yn air mewn Sgoteg: '*n.* (Sc.) a dwelling, a lodging; *v.t.* (Sc.) to establish as in a residence, to settle, to accustom to'.

Fel hyn y dywed Mervyn Edwards, a fu'n rheolwr prosiect ESA i DEFRA yn Penrith ym Mharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd yng Nghymbria, wrth gyfeirio mewn adroddiad at y drefn o *hefting* (neu *heafing*, fel y dywedir mewn rhai ardaloedd yno):

Hefted sheep, or heafed sheep as known in the Lake District, have a tendency to stay together in the same group and on the same local area of land (the heft or heaf) throughout their lives. These traits are passed down from the ewe to her lambs when grazing the fells – in essence the ewes show their lambs where to graze. Hefted flocks are self-maintained flocks. [<https://bit.ly/3iQ5bjf>]

Mae'r drefn a ddisgrifir yn cyfateb i'r traddodiad yma yng Nghymru, sef bod gan ffermydd unigol gynefinoedd penodol yn y mynydd ar gyfer eu diadelloedd – parhad yn rhannol o hen drefn hafod a hendref. Dyma a ddywed *Gwyddoniadur Cymru* am y drefn honno:

Yn ei hanfod, golygai drigo mewn dwy ddeiliadaeth, sef yr hendre ar lawr gwlad a'r hafod (neu'r lluest) yn yr ucheldir lle byddid yn gofalu am wartheg rhwng Calan Mai a Dydd yr Holl Saint (Calan Gaeaf) ... Erbyn diwedd yr 17g a dechrau'r 18g, wedi i wartheg gael eu disodli gan ddefaid fel prif gynhaliaeth economi'r ucheldir, peidiodd yr arfer; erbyn 1800 yr oedd wedi diflannu i bob pwrpas yng Nghymru, wrth i hafodydd dueddu i ddatblygu'n ffermydd ucheldir cyflawn.

Wrth nodi hynafiaeth yr arferiad, mae Mervyn Edwards yn crybwyll y Celtiaid, a chawn gan T. Gwynn Jones yn y gerdd 'Anatiomaros' ddarlun o'r cyfnod pan gedwid buchesi ym mhorfeydd y gweunydd uchel dros yr haf cyn dychwelyd i wastatir y dyffrynnoedd:

Y da a'r menni, o dir y mynydd,  
Yn araf hwyliant i'r Hendref eilwaith,  
A gado'r Hafod, gwedi hir ryfyg  
Aneirif roddion yr haf, a'i ryddid;  
Sŵn cŵn yn cyfarth, a bref y gwartheg  
Yn toddi eisoes i'r hyntoedd isod ...

Ystyr *hafod* (*haf* + *bod*) yw preswylfod yn y mynydd y byddai bugail a'i deulu yn byw ynddo dros yr haf. Cyfeiria'r enw *hafoty* (*foty*) yn fwy penodol at yr annedd ei hun. Erys sawl annedd sy'n dwyn yr enw *Hafod* neu *Hafoty* (*Foty*), lawer ohonynt yn furddunod ers tro byd. Yn ardal y Carneddau yn

Eryri, cawn nifer o enghreifftiau megis *Hafod y Wern*, *Foty Coed yr Ynys*, *Foty Belyn*, *Foty Uchaf*, *Foty Isaf*, *Foty Lowri Galed*, *Foty'r Famaeth*, *Foty Alis*, *Foty'r Cesig*. Fodd bynnag, er nad yw'r ffermwyr yn symud i fyw i'r hafotai ers cenedlaethau lawer, maent yn dal i fynd â ddefaid i'r mynydd a'u gadael yno dros yr haf. 'Mynd i hel' a 'helfa' a ddywedir am y gorchwyl blynyddol o grynhoi'r diadelloedd gyda chŵn er mwyn eu gyrru i lawr i'r buarthau wrth odre'r mynydd i'w didol. Ceir digrifiad o 'helfa' ar y Carneddau (Helfa'r Braich – Helfa Braich y Prysgryll) gan yr Athro Ifor Williams yn ei ysgrif 'I'r Mynydd' yn ei gyfrol *I Ddifyrnu'r Amser*. Dilyn fy nhaid – 'mab Bryn Eithin' yn yr ysgrif – a wnaeth o, a hynny i ben Carnedd Llywelyn yn nhywyllwch nos ac aros nes i'r wawr dorri cyn dechrau hel:

A dyna i chi olygfa. Ar bob ochr ymhell islaw i mi, gwelwn y llethrau yn fyw o ddefaid mân yn llamu o flaen y cŵn ar draws i ddechrau ac yna at i lawr, i gyfeiriad y corlannau. Gwelwn ddyinion, un yma, un acw, yn gylch llac am y mynydd, yn gyrru'r cŵn at eu gorchwyl. Unai y mân yrroedd o ddefaid yn finteioedd mwy a mwy...




*Buarthau'r Gyrn uwchlaw Dyffryn Ogwen, fel y'u gwelir o'r awyr. Llun: Nigel Beidas*

Beth am yr enw *heft* a'r elfen *heaf* yn *heafing* a ddefnyddir heddiw gan ffermwyr yn ne'r Alban a rhannau o Loegr? Disgrifir *heft* / *heaf* gan Mervyn Edwards fel 'a recognized grazing area', sef cynefin diadell, ac mae'r enw *hafod* wrth gwrs yn gysylltiedig â chynefin. Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, *hauot* oedd ffurf ysgrifenedig yr enw mewn Cymraeg Canol, a nodir enghreifftiau megis *Kalangayaf ... gwedw hauot*; a *Hauot Penenmeyno ... Hauot Boyth*. Eglurir y sillafiad *hauot* gan yr Athro D. Simon Evans yn ei gyfrol *Gramadeg Cymraeg Canol*, sef mai *t* a geid fel arfer mewn Hen Gymraeg a Chymraeg Canol am *d*, gydag *u* (ynghyd ag *f*, *w*, *v*) yn dynodi'r sain 'f'. A yw'n bosib bod y gair *hauot* mewn Hen Gymraeg (diwedd yr 8g. hyd ganol y 12g.) wedi cymryd y ffurfiau *heft*, *heaf* a *haft* yn y Saesneg?

*Ieuan Wyn*

## Enwau lleiniau ar dir comin plwyf Llanfair Mathafarn Eithaf, Ynys Môn

Bu'r hawl i ddefnyddio'r tiroedd comin ar gyfer tyfu cnydau a phesgi anifeiliaid yn bwysig iawn i dyddynwyr a ffermwyr ledled Cymru ar hyd yr oesoedd. Pan gaewyd y tiroedd gan y tirlfeddianwyr yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwrthwynebwyd y mesurau'n chwyrn gan y werin a ddefnyddiai'r tiroedd.



©Crown Copyright and Landmark Information Group Limited 2020. All rights reserved (1900)

Ym mhlwyf Llanfair Mathafarn Eithaf, Sir Fôn, caewyd y tir comin, sef 'Rhos fawr, Mynydd Llanfair a'r Ynys', yn 'wirfoddol' (trwy gytundeb ymysg y tirlfeddianwyr, yn hytrach na Deddf Seneddol) yn 1817. Ymysg y gwrthwynebwy'r i'r cau yr oedd Eglwys Sefydledig y plwyf, a gollodd yr incwm o'r rhenti a godwyd ar y tai a'r tiroedd ar y comin.

Ymysg Papurau'r Comisiwn Elusennau yn yr Archifau Cenedlaethol ceir llawysgrif (Char/349) a ysgrifennwyd gan gurad y plwyf i gwyno am y golled ariannol sy'n cofnodi enwau 42 o leiniau a'r tenantiaid a dalai rent i'r eglwys yn y cyfnod cyn 1799. Ar y cyfan, caeau bychain a gerddi sy'n cael eu rhestru, a hefyd ychydig o dai a adeiladwyd ar y comin – rhai ohonynt yn dai unnos, mae'n debyg.

Dyma ddeddoliad o enwau'r lleiniau (yn orgraff y llawysgrif) a thipyn o hanes rhai o'r tai:

**LLAIN Y CYTTIR** Ystyr *cytir* yw tir cyffredin neu dir comin, ac mae enw'r tyddyn *Cytir* yn parhau hyd heddiw.

**LLAIN MARIAN CARREGOG, LLAIN Y TYNEWYN** Ardal o garreg galch yw plwyf Llanfair Mathafarn Eithaf, a adnabyddir hefyd fel *Llanfair y Greiglwm* neu *Graiglwm* oherwydd y tir gwael a'r pridd tenau. Mae enwau'r lleiniau hyn yn cyfeirio at y cerrig a'r prinder maeth yn y tir.

**YR ARDD FANAOL** Mae'n debyg mai ffurf ar yr ansoddair *maenol/maenawl* 'caregog' sydd yma.

**LLAIN Y MAEN MWSOGL** Enw'n cyfeirio at y mwsogl a dyfai ar y cerrig mewn amodau llaith.

**CHWAREL MEINI MELINAU** Roedd ardal Rhos-fawr yn enwog am gynhyrchu meini melin o'r garreg galch.

**GARDD WRTH YR ODYN** Roedd y calch hefyd yn cael ei losgi mewn odynau er mwyn creu gwrtaith.

**CAE RHOSBACH, YR ARDD WRTH LIDIART Y RHOS, LLAIN PORTH Y RHOS, LLAIN Y WAUNLLE, TYN Y MYNYDD** Cyfeiria'r enwau hyn at y rhostir yn Rhos-fawr a Mynydd Llanfair.

**LLAIN CEFN DAFYDD** Mae'r gair *cefn*, sef sribyn o dir, yn aml yn gysylltiedig â thiroedd comin.

**GERDDI YR ORSEDD, CAE PEN YR ORSEDD** Tomen neu fryncyn yw ystyr *gorsedd* yn y cyswllt hwn.

**LLAIN Y DREFBOETH** Tŷ bychan oedd y Drefboeth ac mae'n debyg mai'r gair *poethwal/poethwel* sydd yma, sef ardal lle llosgwyd bonion eithin i'w defnyddio fel tanwydd.

**YR ARDD FAWR, YR ARDD FAIN, YR ARDD GRON, GARDD GONGL GAM 'BY THE WAY'** Cyfeiria'r enwau hyn at erddi bychain lle tyfid llysiau, neu at berllannau.

**YR ARDD GLUSTGAM** – yn cyfeirio at siâp yr ardd mae'n debyg, ond efallai bod cyswllt yma hefyd gyda *chlust aradr*.

**GARDD Y TRACHWANT, YR ARDD DDICHWANT** Yr un tenant a ddefnyddiai'r gerddi hyn, ac efallai bod yr enwau'n mynegi trafferthion y tyddynnwr wrth geisio'u trin.

**GARDD HURTHGAN** Mae'n debyg mai ffurf ar y gair *hurthgen* 'hurtyn, twpsyn' sydd yma.

**LLAIN WRTH GLAWDD CRIMACH** Enw bwthyn oedd *Crimach*.

**LLAIN YR HEN FORWYNION, GARDD LOWRI, GARDD IFAN DAFYDD, LLAIN Y BUGAIL** Cyfeiria'r enwau at ddefnyddwyr y lleiniau.

**LLAIN GIBRALTER** Roedd tyddyn o'r enw *Gibraltar* gerllaw, lle magwyd dynion cryfion ac ymladdgar, yn ôl y sôn. Yma hefyd y tybir gan rai i'r bardd Goronwy Owen gael ei eni.

**YR ARDD WRTH YR ADWYGOCH, LLAIN WRTH FFORDD YR ADWYGOCH** Bwthyn to gwellt oedd *Y Wradwy Goch* a ddisgrifwyd fel lloches glyd i lawer teulu. Yn amaethyddol, bwllch mewn clawdd neu wrych yw adwy. Mae'n debyg mai cyfeiriad at liw'r pridd yn yr ardal yw'r elfen *coch*.

**CAE WRTH CEFN IWRCH** Cefniwrch yw enw'r ardal rhwng Rhos-fawr a Thalwrn; math o garw bach yw *iwrch*.

**Y BRYNTIRION** Codwyd tŷ ar dir Bryntirion gan saer maen o'r enw John Roberts 'er [g]waethaf y plwyfolion. Dywedir fod dydd wedi ei drefnu i fyddin o drethdalwyr ddod ynghyd i chwalu y muriau, ond bu yr hen John Roberts mor ddiwyd y noson cynt, fel yr oedd pen ar y bwthyn, y mwg yn dod o'r corn, a'r wraig a'r plant ar fath o wely pan ddaeth y chwalwyr ynghyd. O dan yr amgylchiadau ni feiddiai neb gyffwrdd a'r lle'.

**LLAIN Y CAPEL** Adeiladwyd capel trwyddedig gan y Bedyddwyr ar y tir comin cyn ei symud i'r lleoliad presennol.

**LLAIN Y STORWS WEN** Roedd y Storws Wen yn fan cyfarfod i'r Annibynwyr ac yn dŷ tafarn ar wahanol gyfnodau (a bellach mae'n gwrs golff!).

Enwau'r lleiniau eraill yw: **CAE RONWY, LLAIN Y GWYDD A CHAE'R FFYNNON, GARDD PONTFARI, LLAIN PONTFARI, GARDD TANRALLT, a LLAIN Y FFYNNON.**

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth bellach am enwau'r lleiniau hyn a chysylltiadau â thiroedd comin.

*Common land was an important part of the landscape for smallholders and farmers, who grazed their livestock and grew their crops on these areas. In Llanfair Mathafarn Eithaf, Anglesey, the Rhos-fawr, Mynydd Llanfair and Ynys common was enclosed in 1817. The curate of the parish complained that the enclosure deprived the Church of the rents on the fields and houses on the commons, and compiled a list of 42 small fields (llain/lleiniau) and gardens (gardd/gerddi) on which rents were paid. This article examines the names of the fields and houses.*

*Emyr Roberts*

## ***Toffet, Ebwch Gwan, Twll yr Hwch ac Ostrelia***

Ganol fis Chwefror 2019 trefnwyd digwyddiad ar y cyd rhwng yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, Cynllun Cerdded a Darganfod (Menter Fach-wen) a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Roedd yn rhan o wahanol ddigwyddiadau ar ran yr Amgueddfa i gofio hanner can mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig. Dangoswyd dwy ffilm – *Ffarwel Roc* ac *End of the Line*, a'r 'sinema' yn orlawn ar gyfer pob dangosiad! Roedd cyfle hefyd i weld degau ar ddegau o hen luniau a hel atgofion.

Gan fanteisio ar yr holl bobl a fu'n mynychu'r digwyddiad fore a phnawn, ceisiwyd casglu'r holl enwau a oedd yn gysylltiedig â'r chwarel, a'u lleoli – y ponciau, y lefelau, y llwybrau a'r sinciau; enwau sy'n prysur fynd ar ddifancoll neu'n cael eu disodli gan enwau Saesneg gan ddringwyr. Paratowyd copïau o fapiau Ordans o wahanol flynyddoedd yn dangos y newidiadau o fewn y chwarel: inclêns yn cael eu symud, ponciau a lefelau newydd yn cael eu hagar, siediau'n cael eu codi, ac yn y blaen. Cafwyd amryw i ddadl hwyliog ynglŷn â ble'n union yr oedd ambell enw'n ffitio ar y mapiau. Prinhau'n flynyddol mae'r cyn-chwarelwyr a fu'n gweithio yn y chwarel ac yr oedd angen manteisio ar eu gwybodaeth i gofnodi'r enwau.

Gwir fod llawer o'r enwau wedi eu cofnodi mewn llyfrau fel *Canrif y Chwarelwr* a *Bargen Dinorwig* gan y diweddar Emyr Jones, ond nid yw yntau chwaith yn eu lleoli. Canlyniad diwrnod hynod lwyddiannus fu i Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru roi comisiwn i Gareth Roberts o'r Cynllun Cerdded a Darganfod i gofnodi a lleoli'r holl enwau'n gysylltiedig â Chwarel Dinorwig – a chasglu mwy os oedd yn bosib. Aeth y gwaith hwnnw rhagddo yn ystod y llynedd, drwy wahodd y cyhoedd i ymweld â Chanolfan Menter Fach-wen ar y Stryd Fawr yn Llanberis ac ychwanegu enwau, lleoliadau neu wybodaeth at y drysorfa. Cafwyd map yn dyddio o'r 1930au yn dangos y chwarel fwy neu lai fel yr oedd hyd ei chau,



*Pori dros hen fapiau o Chwarel Dinorwig yn yr Amgueddfa Lechi*



## Cofnodi Newid Enwau Lleoedd | Recording Changes to Place-Names

‘Hybu ymwybyddiaeth, astudiaeth a dealltwriaeth o enwau lleoedd a’u perthynas ag ieithoedd, amgylchedd, hanes a diwylliant Cymru’ yw nod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Ynghlwm wrth y nod hwnnw y mae nifer o amcanion, gan gynnwys ‘hyrwyddo a chefnogi unigolion a grwpiau i gofnodi, dadansoddi a dehongli enwau lleoedd o dystiolaeth lafar a dogfennol’ a ‘gweithredu fel cyfrwng i warchod enwau lleoedd Cymru’.

Er mwyn gallu cyflawni’r amcanion hynny, mae angen data am enwau lleoedd a’u defnydd yn yr oes sydd ohoni, gan gynnwys enghreifftiau o newid neu ddisodli enwau. Wrth edrych ar unrhyw gyfnod yn hanes Cymru, fe welir yn syth fod rhai enwau yn cael eu colli dros amser a bod eraill yn cael eu bathu. Weithiau, mae hynny’n digwydd oherwydd twf un iaith ar draul un arall. Mae hefyd yn digwydd oddi mewn i un iaith. Ond, yn sicr, mae canfyddiad cyffredin ar hyn o bryd fod enwau lleoedd yn cael eu colli neu eu newid ar raddfa fwy eang nag yn y gorffennol, ac yn arbennig felly yn achos enwau Cymraeg sy’n cael eu disodli gan rai Saesneg.

Rhaid wrth ddata er mwyn ymateb i’r canfyddiad hwn. Bydd natur y data hwn yn amrywio yn ôl statws yr enwau. Er enghraifft, nid yw pob enw tŷ yn rhan o gyfeiriad swyddogol ar gronfa’r Post Brenhinol. Gall enw tŷ fodoli am genedlaethau heb fod iddo statws swyddogol, a chan hynny gall ddiflannu neu gael ei ddisodli’n rhwydd iawn. Os yw enw tŷ yn rhan o gyfeiriad swyddogol, rhaid cwblhau proses ffurfiol er mwyn ei newid. Ond hyd yma, nid pob Awdurdod Lleol sydd wedi cadw cofnod llawn o newidiadau o’r fath. Ac weithiau, gall enw newydd ymddangos ar dalcen tŷ er bod yr ‘hen’ enw yn dal i fod yn y cyfeiriad swyddogol. Digwydd hyn yn aml yn achos aneddiadau sy’n dai gwyliau neu a ddefnyddir at bwrpasau masnachol. Mae newid i enwau nodweddiol

The aim of the Welsh Place-Name Society is ‘to promote an awareness and understanding of the study of place-names and their relationship to the languages, environment, history and culture of Wales’. A number of objectives support that aim, including ‘promoting and supporting individuals and groups in recording, analyzing and interpreting place-names from oral and documentary evidence’ and ‘acting to protect the place-names of Wales’.

To achieve those objectives, we need data on place-names and their use in the present day, including the changing and replacement of names. When looking at any period in Welsh history, it is immediately apparent that some names are lost over time and that others are coined, for a variety of reason. Sometimes, that happens as one language grows at the expense of another. It also happens within a single language. But, certainly, there is a common perception at present that place-names are being lost or replaced at a greater rate than in the past, especially in the case of Welsh names being replaced by English ones.

We need data to be able to respond to this perception. The nature of this data will vary according to the status of the names. For example, not all house names are part of an official address on the Royal Mail database. A house name can exist for generations without having official status, and can therefore disappear or be replaced very easily. If a house name is part of an official address, a formal process must be completed in order to change it. But to date, not all Local Authorities have kept full records of such changes. And sometimes, a new name may appear on a house even though the ‘old’ name is still registered as part of the official address. This is often the case with houses used as holiday homes or for commercial purposes. Changes to the names of geographical

daearyddol megis bryniau, llynnoedd neu draethau yn gategori gwahanol eto.

Ynglwm wrth y rhifyn hwn o'r *Bwletin* (ac ar gael drwy'r ddolen isod), felly, y mae ffurflen ar gyfer cofnodi unrhyw newid i enw yr ydych chi'n ymwybodol ohono. Po fanylaf yr wybodaeth y gallwch ei rhannu, y gorau. A chofiwch hefyd fod enwau Saesneg hanesyddol hwythau yn cael eu newid, drwy gael eu disodli gan enwau Saesneg eraill neu gan enwau Cymraeg. Os byddwch am anfon ffotograffau, cofiwch barchu preifatrwydd a chadw at fannau cyhoeddus wrth dynnu unrhyw luniau. Diolch yn fawr.

Ffurflen Cofnodi Newid Enw Lle:

<https://bit.ly/33Q5Gn8>

features such as hills, lakes or beaches form yet another category.

Attached to this edition of the *Bulletin* (and available through the link below), therefore, is a form for recording any changes of names of which you may be aware. The more detailed the information you can share, the better. And remember that English names may also change, by being replaced by other English names or by Welsh ones. If you would like to send pictures, please respect others' privacy and stay in public areas when taking photos. Thank you very much.

Form for Recording Changes to Place-Names:

<https://bit.ly/3mGXH4E>

## Ymlaen

*Enillodd Terwyn Tomos Stôl Farddoniaeth Gŵyl AmGen 2020 am y gerdd hon sy'n trafod ei filltir sgwâr a'i gymuned yng Nghwm Degwel wrth iddo ddod i werthfawrogi'r hyn a oedd o dan ei drwyn yn lleol yn ystod y cyfnod clo eleni.*

Mae carreg yng Nghwm Degwel,  
Yno'n hŷn na'r un a wêl  
Llygad dyn, pob crwydryn craff.

I estron, y mae'n wastraff  
Oedi yma am damaid –  
Daw budd o deithio di-baid!  
Dyw ennyd mewn byd unig  
Ar y mawn ond chwarae mig.

Ond yma, yma i mi,  
Arhosodd a goroesi  
Rhyw fflaglen o hen hanes –  
Yn y nant mae'n dod yn nes.

Heddiw aiff, a ddoe a ddaw  
Â dwyster i'r man distaw,  
Yn lliw del pabi melyn,  
Ac yng nghemeg garleg gwyn;  
Yn y mwsog a'r meysydd,  
A thrydar yr adar rhydd.

Mae stori a cherdd drwy'r cwm yn cerdded,  
A hen alawon yno i'w clywed;  
Mae rhythmau'r geiriau'n llwybr i'm gwared  
Yn ddirgel a thawel o'nghaethiwed,  
Eto'n un â'nghymuned; – ymryddhau,  
Y mae golau, y mae fflam i'w gweled

A ddaw, a fydd, neu a ddêl,  
Mae digon yng Nghwm Degwel.

## Enwau yn y Waunfawr a Nant-y-Betws

**LLAIN Y GWYSTL** Rhimyn cul o dir ar Afon Gwyrfai ger Nant-y-Betws oedd *Llain y Gwystl*. Ar y darn tir bach hwn y byddai pobl yn cyfarfod yn yr hen amser i wneud addewidion a chytundebau. Byddai pob addewid a chytundeb a wneid ar y llain hwn yn gwarantu fod pob bargaen yn cael ei chadw. Enw arall ar yr ynys (a chwalwyd rai blynyddoedd yn ôl wrth sythu cwrs yr afon) oedd *Tir Neb*.

Os edrychwch ar fap o Nant-y-Betws (Betws Garmon), mi welwch dair ynys fechan agos iawn i'w gilydd ar yr afon rhwng dwy fferm, Plas Isa a Ty'n y Weirglodd. Mae angen craffu i'w gweld yn iawn. Credaf mai'r fwyaf o'r tair, sef yr un yn y canol, yw *Llain y Gwystl*.

**LLECHFA'R OLAF (LLECHAROLA), NANT-Y-BETWS** Mae sawl esboniad am yr enw hwn. Dyma un stori a glywais. Yn dilyn brwydr waedlyd ar faes y gad, yr unig un i oroesi o'r ochr a drechwyd oedd bachgen ifanc yn ei ardddegau. Achubwyd bywyd y bachgen gan gydymaith drwy ei wthio i lechu dan garreg faen yn y cae. Ar frwydr drosodd a'r gelyn wedi cilio, mentrodd y bachgen o'i guddfan gan weld ei gyd-ymhladdwyr yn gelain ar y llawr. Ef, yn ôl yr hanes, oedd yr olaf i ddianc oddi yno'n fyw. *Llechfa'r Olaf*, neu 'Llecharola' ar lafar, y galwyd y lle byth wedyn.

**CILFECHYDD WAUNFAWR** Tyddyn ar gyrion y Waun yw hwn. Dywedir mai fel *Cilfach-yr-hydd* yr adwaenid *Cilfechydd* yn yr hen amser, gan fod ceirw'n crwydro ar y clogwyn (*Clogwyn Cyrnant*) uwchben y tyddyn.

**CAE MAB ADDA GOCH** Tyddyn eto yn y Waunfawr a elwir heddiw yn *Cae Adda* neu *Gadda*. Fe drosglwyddwyd un o adeiladau allanol yr hen le (hen dŷ gwair), i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan rai blynyddoedd yn ôl. Hefyd yn y Waun mae tyddyn o'r enw *Cae Mab Ynyr*, 'Cabynir' ar lafar. Mae'r tyddyn hwn wedi ei leoli nid nepell o Weirglodd Fawr, ar gyrion ardal Croes-y-waun o'r pentref. Mae Glenda Carr yn trafod y ddau enw, *Adda Goch* a *Mab Ynyr* yn *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd* (Gwasg y Bwthyn, 2016), 74–5.

**RHESTAI GWYRFAI ('TAI CORNISH')** Rhes o ddwsin o dai allan yn y wlad rhwng y Waunfawr a Betws Garmon yw *Rhestai Gwyrfai* (Gwyrfai Teras). Dywedir yn ystod dirwasgiad cynnar y ganrif ddiwethaf i ddynion o Gernyw ddod i'r ardal i weithio yn y chwareli bychain o gwmpas. Ymgartrefodd rhai o'r dynion a'u teuluoedd yn *Rhestai Gwyrfai* ac fel *Tai Cornish* y gelwid hwy am beth amser wedi hynny. Dros y cae a'r teras saif Plas Gwyrfai, sef cartref rheolwr Chwarel Hafod-y-wern yr adeg honno.

**SIMDDE'R DDYLLUAN (DRWS-Y-COED)** Yn y flwyddyn 1730, amcangyfrifwyd fod oddeutu 500 o weithwyr ym mwngloddiau Drws-y-coed a Simdde'r Ddylluan. Gwnaethpwyd y rhan helaeth o ddiilladau'r gweithwyr yma yn hen ffatri wlân Treflan yn y Waunfawr. Roedd yna hefyd bryd hynny hen bandy yn Hafod-y-wern, Betws Garmon, a oedd yn llawer hŷn na ffatri Treflan, yn cynhyrchu dillad ar gyfer gweithwyr gwaith copr Drws-y-coed a Simdde'r Ddylluan.

Tra'n sôn am Simdde'r Ddylluan, stori dda yw honno am un o lanciau Drws-y-coed oedd ar ei ffordd adref un noson dywyll heb olau ar ei feic. Rhywle ar hyd y ffordd cafodd ei ddal gan blismon, un ifanc a brwdfrydig a oedd newydd symud i ardal Dyffryn Nantlle o'r dre. Cafodd y llanc bregeth hir a llym gan y cwnstabl am reolau'r ffordd fawr a'i rybuddio os daliai ef eto, câi ei gosbi a'i yrru o flaen y Llys. Dywedodd y llanc ei fod wedi dysgu ei wers, ac y byddai o hynny ymlaen yn dilyn ffordd arall (un na wyddai'r Gwron Glas amdani), tuag at ei gartref yn Nrws-y-coed. 'Pa ffordd yr ei di?' gofynnodd y plismon piwis yn sarhaus. 'Drwy'r simdde!' atebodd y llanc yn swta, er mawr syndod i'r plismon.

**PENFFORDDFANGOR** Dyma enw ar gae ar dir Penrhos (fy hen gartref), yn y Waunfawr, lle byddai'r hen

ffordd Rufeinig yn arfer bod.

**LLYN CWELLYN** Mae'n debyg mai yr enw cynnar arno oedd *Llyn Tarddeni*, ac yn ddiweddarach *Caeuwch-y-Llyn*, a gwtogwyd wedyn yn *Cwellyn*. Hefyd ar un amser cyfeirid ato fel *Cwelin*. Cred rhai mai *Chwe-Llyn* oedd yr enw cywir arno, sef y chweched o lynnoedd Eryri.

**LLYN Y GADAIR** Yn ôl Syr T.H. Parry Williams, yr enw cynnar arno oedd *Llyn-dan-Gadair-Eurwrychyn*. Enw ar godiad o dir a bryncyn ar ochr dde-orllewinol y llyn yw'r Gadair, ac enw yn disgrifio anghenfil ac iddo wrychyn aur y buwyd yn ei hela yw *Eurwrychyn*.

*Gwilym Morris Jones*

### **Ambell i enw ...**

**'BWLCH MASGWRN'** Clywais fy mam yn dweud mai 'Bwlch Masgwrn' y gelwid *Bwlch Maesgwm*, rhwng y Foel Goch a Moel Cynghorion, ar lafar ers talwm. Wrth edrych o gyfeiriad Hafoty dros Gwm Eilir, fe welir ymysg y coed a'r creigiau yn y pellter rywbeth tebyg iawn i ben milwr. 'Milwr Masgwrn', fel byddai'r hen bobl yn ei alw ers talwm. Mae angen craffu am hir i'w weld yn iawn, ond wedi i'ch llygaid daro arno, fe welwch (yn ôl fy mam), 'y milwr hardda welsoch erioed'. Fel yr erchyll 'Telegraph Pass' y mae'r Saeson yn galw'r lle heddiw. Enghraifft arall o'r chwyn yn lladd y blodau!

**LLAIN DRWSGL** Mae'r darn bach tir hwn ar ochr y ffordd nid nepell o bentref Beddgelert wrth ddod o gyfeiriad pentref Rhyd-ddu. Y gred yw fod olion troed cawr yno a lithrodd a disgyn yn drwsogl ar y llain.

**CARREG ORCHEST** Carreg ar dir fferm Ffridd Uchaf, Rhyd-ddu, oedd hon, lle byddai'r llanciau o ardaloedd fel Nant-y-Betws a Nant Colwyn yn cyfarfod ar y Suliau i gynnal gornest y rhai cryfaf i godi'r garreg.

**CROESOR** Hen chwedl glywais dro yn ôl oedd yr un yn sôn am sut y cafodd pentref Croesor ei enwi. Yn ôl y sôn roedd merch o'r enw Elen (tywysoges efallai) yn byw heb fod ymhell o Lanfrothen, wedi clywed fod ei mab wedi ei ladd mewn rhyfel. Taflodd Elen ei breichiau a gwaeddodd yn uchel, 'Croesawr i mi yw hon!' Tybed os oes rhywfaint o wirionedd yn hyn?

*Ifor Dylan Williams*

## **Map digidol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**

Rydym yn ychwanegu enwau lleoedd at fap digidol y Gymdeithas yn gyson ac erbyn hyn mae'n adnodd gwerthfawr iawn, yn cynnwys dros 23,000 o enwau.

Wrth gofnodi enwau byddwn yn defnyddio ein hawyrluniau a'n mapiau hanesyddol ar lein. Nodir pa fath o enw mewn blwch yn y map, er enghraifft, cae, afon, heneb, llwybr, nodwedd arfordirol, ac yn y blaen. Yna, nodir enw'r sawl sydd yn cofnodi, y ffynhonnell, y cyfrannwr, dyddiad y dystiolaeth ac yna'r stori sydd y tu ôl i'r enw. Os oes mwy nag un enw ar yr un lleoliad, fe'u cofnodir i gyd. Pan fo mwy nag un cae wedi eu troi'n un cae mawr, cofnodir pob enw o fewn ffiniau'r cae newydd.

Mae gwefan [streetmap.co.uk](http://streetmap.co.uk) yn ddefnyddiol at gofnodi enwau ac i yrru'r manylion atom ni. Cysylltwch drwy e-bost [enwaulleoedd@gmail.com](mailto:enwaulleoedd@gmail.com) am gyfarwyddiadau. Peidiwch â gyrru rhestr o enwau yn unig: mae'n rhaid cael cyfeirnod map ar gyfer pob enw, neu fap llaw yn eu nodi gydag enw fferm a phentref neu dref gerllaw.

Dyma ychydig o enghreifftiau o enwau sydd ar y map.

*Fferm*, Tref Llywelyn Fawr ym mhlwyf Rhuddlan (enw ar dreflan hynafol)  
*Llys Elis ap Clynnog*, craig yn y môr, ger Penmaenmawr  
*Carreg y Ledi*, plwyf Llanwenllwyfo, Ynys Môn  
*Muriau Merched Engan*, Rhostryfan, Gwynedd  
*Adwy Gwŷr Llŷn*, Ardal Ardudwy, Sir Feirionnydd  
*Caer Ogyrfan*, Old Oswestry heddiw  
*Pant Rhydyrebolion neu Pantyrebolion*, Ceredigion  
*Parc y Barywns*, fferm Tŷ Rhedyn, Trewyddel  
*Melin Martel*, plwyf Casmael, Sir Benfro  
*Fferm Llwyn y Merched*, plwyf Aberysgir  
*Dôl y Fan Common*, plwyf Llangynllo, Maesyfed  
*Coed-y-paen*, ger llyn Llandegfedd  
*Gruggy*, Afon Hafren ger Porthsgiwed

Dyna flas ar fymryn o'r enwau a ddetholwyd o'r map digidol. Mae'r data yn cael eu harchifo yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, felly byddant yn ddiogel am byth.

*Rhian Parry*

## **Hanes 'slips' yr Athro Melville Richards ac antur y tân**

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu 'nhad yn gweithio yn Bletchley Park yn yr adran a oedd yn delio â'r Abwehr. Yr Abwehr oedd gwasanaeth cuddwybodaeth filwrol yr Almaen. Yn 1942, dadansoddwyd negeseuon gan yr SS a oedd yn ymwneud â thablau yn cofnodi'r niferoedd o bobl a gâi eu gyrru i'r gwerysloedd ac a fyddai'n marw ynddynt, h.y. difodiad cyflafan yn nhermau ffigurau oeraidd. Roedd y math hwn o wybodaeth yn galluogi'r wlad hon i ymateb drwy gyfansoddi negeseuon ffug i'w dosbarthu drwy asiantau yn yr Almaen (gwybodaeth gwrth-groes). Yn ei thro, daeth gwybodaeth werthfawr o'r asiantau hyn yn dangos faint o wybodaeth a oedd gan yr Almaen am ein hamddiffyniadau ni, ac unrhyw symudiadau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt o safbwynt ein byddin. Wrth gwrs, roedd rhaid cadw unrhyw wybodaeth wir neu ffug yn hollol gyfrinachol – baich trwm iawn i'w ysgwyddo. I ddelio â'r pentwr o dameidiau o wybodaeth yr oeddent wedi ei dadansoddi, defnyddiwyd 'slips'.

Wrth i waith fy nhad ar astudiaethau ieithoedd ac enwau lleoedd ddatblygu, defnyddiodd 'slips' i gofnodi gwybodaeth. Pan oeddwn yn groten fach yn Lerpwl treulais sawl prynhawn hapus yng nghwmni fy nhad yn y stydi yn torri papur yn ddarnau o'r maint delfrydol sef tua chwarter taflen A4. Trefnwyd y slips yn nhrefn yr wyddor a'u gosod mewn bocs tua maint bocs esgidiau. Byddai'r rhain yn cael eu cadw ar silffoedd yn nhrefn yr wyddor. Gydag amser cynyddodd nifer y bocsys yn sylweddol! Erbyn symud i Langrannog roedd un wal o'r stydi yn focsys o'r llawr i'r nenfwd.


Rwy'n cofio haf 1959 fel cyfnod o dywydd sych, poeth. Tua dechrau mis Medi roedd tipyn o gyffro ar sgwâr Llangrannog. Dechreuodd tân yn yr eithin a'r grug sych ar y bryn y tu ôl i'r eglwys. Mewn dim amser roedd cwmwl du dros y pentref a fflamau'n saethu i'r awyr. Daeth trigolion y tai gerllaw, a finnau'n eu plith, i weld yr olygfa. Yn sydyn daeth awel o wynt a dechreuodd y tân symud yn araf i ddechrau, ac yna'n gynt tuag at cefn ein tŷ ni. Adeiladwyd Heulfryn ar ochr y bryn gyda pherllan y tu ôl iddo, ac roedd yr ardd yn dringo'r llethr ar ffurf sawl teras gyda'r tŷ gwydr ar y rhan uchaf. Dyma

pawb yn rhedeg at y tŷ i rybuddio 'nhad. Ei ymateb cyntaf oedd 'Y SLIPS' – roedd rhaid eu hachub! Chwarae teg gwnaeth pawb ffurfio lein mewn dim amser i basio'r bocsys o'r naill i'r llall, i ddiogelwch y lawnt o flaen y tŷ. Aeth fy mrawd a minnau â'r biben ddŵr i wlychu'r ddaear ar y bryn y tu ôl i'r tŷ er mwyn atal y tân rhag cyrraedd y tŷ gwydr a'r coed o amgylch. Llogodd y tân ei ffordd heibio i'r tŷ gan adael llwybr du ar ei ôl.

Pan daethom i lawr i'r lawnt roedd y bocsys wedi eu gosod yn drefnus o flaen ffenestr y stydi, ac ar yr ochr arall roedd peil o ddillad. Wrth edrych yn agosach, roedd fy mam wedi achub fy nillad i'n barod i fi ddychwelyd i Brifysgol Lerpwl yn yr hydref!

Mae'r dillad wedi hen fynd ond mae'r slips a'r bocsys bellach yn ddiogel yn Archifdy Prifysgol Bangor ac mae eu cynnwys ar gael i bawb.

*Siân Lewis*



## **Carwyn and the place-name Brynaman**

I recently read and enjoyed former First Minister Carwyn Jones' entertaining autobiography, *Not Just Politics*. He has some interesting facts to disclose on the origin of the place-name *Brynaman*, the village where his ancestors once lived and worked:

The discovery of coal and the coming of the railway in the century before last changed both the size of the village and its name. Up until the first trains steamed in, the settlement on that patch of land was known as Gwter Fawr. It's referred to as such in the book *Wild Wales*, by Victorian traveller and writer George Borrow. Maybe the need for a name change is understandable? It must be said, however, that it does sound a lot worse in English than it does in Welsh. The new name, Brynaman, came from Brynaman House, the home of the man responsible for bringing the railway to the area. It says a great deal about the character of the village that, even with the boom of incoming industrialization, the place name wasn't anglicized.

*Richard E. Huws*

## Llwybrau

Work on the Society's latest project, *Llwybrau*, supported by the National Lottery Heritage Fund, began in early August 2019 and will be extended beyond its planned completion date of July 2021 due to the effects of the pandemic. *Llwybrau* aims to promote and support local activities that arise from the awareness of the importance of place-names, encouraging people to help us record and protect those names for the future.

Place-names are an integral part of the identity of a community and its people. They give character to our neighbourhoods and country and make us unique within the world. This is why these names are so important to us and why people feel so passionate about them. However, without a law to protect them, it is impossible to stop people changing them, and so they are too easily lost. *Llwybrau* is a



national project, focusing on the names that define us within our local areas, linking us together and thus enabling us to act more strongly and more efficiently to protect our place-names.

During the past year we have been privileged to support a number of initiatives across the country. For example, we were invited by Natural Resources Wales, the Isle of Anglesey County Council and Friends of the Isle of Anglesey Coastal Path to suggest names for the 269 plaques on signposts along

the coastal path. We're pleased to report that this work has been completed. This is an innovative scheme that can save lives. The plaques, which give the National Grid Number, the number and colour of the posts, have been designed so as to inform emergency services of the location of an emergency. By adding local names, we hope to encourage walkers to use them and take an interest in the stories behind them.

Another important aspect of our work is holding workshops and talks in the community, and recording minor names from those areas on our digital map. Following a very successful workshop in the Ogwen Valley in 2018, John Llywelyn Williams has been very busy distributing our maps to farmers and residents in the area. They have finished recording the minor names on them and Irene Williams has transferred over a thousand names onto our digital map, which has been a substantial undertaking. In February this year we held an event in Neuadd Ogwen, Bethesda, to assess and evaluate the work accomplished and to thank the contributors. Under the guidance of Professor Hywel Wyn Owen, we enjoyed some very interesting presentations by Thelma Morris, Cynrig Hughes, Gwynfor Ellis, Ieuan Wyn and John Llywelyn Williams, which were all followed by



lively discussions. Each speaker had chosen one name to discuss from those they had collected. Some talks were recorded by Dei Tomos and broadcast on his Sunday night radio programme, and are available on our website (<https://www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/5-april-2020-rhaglen-dei-tomos-s4c/>).



During the year we also held a talk and workshop in Trefdraeth (Newport, Pembrokeshire), and hope to extend the work to neighbouring areas with the valued co-operation of Sophie Jenkins of *Planed* (Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise and Development). By cooperating with local groups, the activities are much more valuable and there is a better chance that those groups will continue to record names in the future. It was also a pleasure to welcome Siân Lewis, who lives locally, to the event. (See pp. 29–30 where she explains how her father, Professor Melville Richards, established his invaluable archive of place-names.)

During the year we were invited by Cadi Iolen on behalf of the National Slate Museum to collaborate on a project in the Llanberis, Llanddeiniolen and Dinorwig area to commemorate the closing of the quarry. It has now grown to include other projects in the area in which place-names are an important factor. The Society and Menter Fach-wen have come together to work with Gareth Roberts to collect and record names. A number of small local projects have now combined with our work with Gareth, and this pattern of collaboration between groups is very valuable and one worth emulating. Gareth has been able to collect maps and pictures of Dinorwig Quarry through different periods of its history and will develop this into a living picture, using the latest technology.

Would you like us to come and give a talk or hold a workshop in your community? Once it is safe to do so, we will be happy to hold workshops across Wales and we encourage local groups to invite us to join them. All we need is a hall with internet access and help to encourage local people to come and record minor names from their area. We will provide maps for you, and there will be no cost to societies.

*Rhian Parry*

## Cornel y Comisiynydd

*Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru a chynnig cyngor ar faterion yn ymwneud ag enwau lleoedd i unigolion a sefydliadau.*

### Y Fenai a'r fannod

Rydym ym prysur dynnu at derfyn y rhestr o egwyddorion a geir yn y Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd<sup>2</sup> a ninnau bellach wedi mynd dan groen sawl rheol ddigon difyr yn y gyfres hon. A chyfarfodydd y Panel Safoni Enwau Lleoedd, fel popeth arall, wedi gorfod symud ar lein a'r criw i gyd yn hiraethu am ddos o wynt y môr yn Aberystwyth lle byddwn ni fel arfer yn cyfarfod, parhawyd â'r gwaith safoni dros y misoedd diwethaf o gysur ein cartrefi.

Un pwnc a gafodd ei drafod yn ddiweddar gan y Panel yn un o'r cyfarfodydd fideo hyn oedd y fannod (*Y/Yr*), pryd y caiff ei hystyried yn rhan annatod o enw lle, a phryd y mae angen iddi gael ei gosod fel priflythyren neu lythyren fach. Derbyniais ymholiad yn ddiweddar hefyd gan rywun a oedd am ddefnyddio enwau Cymraeg mewn llyfr Saesneg. Roedd wedi defnyddio enwau Cymraeg afonydd hefyd gan drosi'r arfer o osod 'the' o flaen enwau afonydd yn Saesneg (*the Thames, the Mississippi, the Nile*, ac yn y blaen) ac am wybod os oedd 'Yr Hafren' ac 'Yr Efyrynwy' yn ffurfiau cywir ar gyfer y llyfr. A dyna gael fy atgoffa o un o ddarlithwyr Adran y Gymraeg, Aberystwyth yn ein boddi mewn rheolau gramadeg yn ystod fy nghwrs gradd ac yn dweud nad yw'r fannod yn rhagflaenu enwau afonydd yn Gymraeg. Ceir dau eithriad o fath, fodd bynnag, yn *Y Fenai* ac *Yr Iorrdonen*. Dylanwad yr iaith Roeg sy'n gyfrifol am roi'r fannod yn *Yr Iorrdonen* yn y cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl mae'n debyg, a thybed ai gan nad afon yw'r Fenai mewn gwirionedd y gwneir eithriad ohoni hithau? A minnau wedi fy magu daflad carreg o'r Fenai, nid yn unig yr oedd yn rheol hawdd i'w chofio, ond roeddwn i hefyd yn reit falch fod y Fenai'n teilyngu'r un dyrchafiad â'r afon hynod honno'n y Beibl!

Mae rhai enwau lleoedd lle nad oes dim dwywaith fod y fannod yn rhagflaenu'r enw; dyna *Yr Wyddgrug*, *Y Drenwydd* neu *Y Fenni*, er enghraifft. Byddai disgwyl i'r fannod ymddangos gyda phriflythyren pan fo'r enw'n brif elfen ar arwydd neu'n cael ei ddefnyddio mewn cyfeiriad, ond llythyren fach fydd ganddi wrth ysgrifennu'r enw mewn brawddeg Gymraeg: 'yn yr Wyddgrug' neu 'mynd i'r Fenni' fyddwn ni'n ei ysgrifennu. Efallai wir bod y fannod yn dal ei thir yn well pan fo ffurf gwbl wahanol i'w chael yn Saesneg. Mae'r anghysondeb ar arwyddion lle mai un ffurf sydd i'w defnyddio ar gyfer cyd-destunau Cymraeg a Saesneg yn amlwg, a hynny o bosibl gan fod y fannod Gymraeg yn cael ei hepgor mewn cyd-destunau Saesneg, ac yn wir yn cael ei hepgor ar lafar yn Gymraeg weithiau hefyd. Bydd y rhai sylwgar yn eich plith wedi sylwi ar gawl o arwyddion am 'Bala' ac 'Y Bala', 'Borth' ac 'Y Borth'. Yn achos yr enwau hyn lle mae'r fannod yn rhan annatod o'r enw a lle mai un ffurf sy'n bodoli, yr un yw'r egwyddor o ran ysgrifennu'r enwau ar arwyddion, mewn cyfeiriadau ac mewn brawddegau Cymraeg. Ond ni fyddai disgwyl gweld y fannod Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn brawddeg Saesneg, ac felly 'in Bala' a 'going to Borth' fyddai'n naturiol.

Ceir llond dwrn o enwau eraill sydd hefyd ag un ffurf ond sy'n cynnwys y fannod Saesneg (*The*), er enghraifft ardal *The Knap* ger y Barri neu *The Cot* yn Sir Fynwy. Yma, byddai disgwyl gweld un ffurf â'r fannod Saesneg ar arwyddion. Mae'n fwy naturiol, fodd bynnag, i ddefnyddio'r fannod Gymraeg (*y/yr/r*) wrth ysgrifennu enwau o'r fath mewn brawddeg Gymraeg, yn enwedig felly os yw'r enw ei hun o darddiad Cymraeg, fel *The Cwm* eto yn Sir Fynwy, felly 'yn y Cwm', a 'mynd i'r Cot' a ysgrifennwn.

---

<sup>2</sup> Am y Canllawiau, cliciwch yma: [Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd](https://bit.ly/2nJZ3Sf) neu ewch i <https://bit.ly/2nJZ3Sf>.

Mae'r arfer o ddefnyddio bannod o flaen enw yn gallu newid dros amser ac weithiau caiff ei hepgor yn naturiol, dro arall caiff y fannod ei hepgor er mwyn cynnig un ffurf safonol lle credir nad yw'r fannod yn rhan annatod o'r enw erbyn hyn. Dyma fodd o geisio osgoi sefyllfa lle ceir arwydd sy'n cynnwys ffurf Gymraeg a ffurf Saesneg a'r unig wahaniaeth rhyngddynt yw bod y fannod yn rhagflaenu'r ffurf Gymraeg. Ond hyd yn oed o gael gwared o'r fannod mewn rhai enwau, mae ei hól yn golygu nad yw'n arferol treiglo'r enwau hynny mewn brawddeg. Argymhelliad ein Panel Safoni Enwau Lleoedd yw y gellir hepgor y fannod yn enw pentref Gaerwen yn Ynys Môn, er enghraifft, er mai *Y Gaerwen* a geir yn *Rhestr o Enwau Lleoedd* (Caerdydd, 1967); 'yn Gaerwen' sy'n cael ei ddweud ar lafar, a'r fannod yn cael ei llyncu, a phrin yw'r defnydd o *Y Gaerwen* erbyn hyn. Er hynny, mae'n bosibl y caiff y fannod ei defnyddio'n ymadroddol mewn cyd-destunau mwy ffurfiol neu ysgrifenedig er mwyn osgoi treigladau diangen. Go brin y byddai unrhyw un am fynd i 'Aerwen' i gaffi Pat a Janice ac Elsi a Glen, wedi'r cwbl! Nid anghyffredin felly fyddai gweld y fannod ymadroddol yn rhagflaenu'r *Beddau* a'r *Porth* yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, er mai *Beddau* a *Porth* yw'r ffurfiau safonol a welir ar arwyddion.

A dyna fi wedi eich boddi mewn rheolau gramadeg, yn union fel fy narlithydd gynt yn y Coleg ger y lli! Tan y tro nesaf.

### **The Commissioner's Corner: The definite article in place-names**

*The Welsh Language Commissioner has a responsibility to recommend the standard forms of place-names in Wales and provide advice on related matters to individuals and organisations.*

The Place-Names Standardisation Panel's meetings, like most things these days, have converted to being held online rather than in Aberystwyth, where we usually meet. One topic that came up in one of the video meetings was the definite article. There are some Welsh place-names where the definite article (*Y/Yr/r*) unquestionably precedes the Welsh form: *Yr Wyddgrug* (Mold), and *Y Fenni* (Abergavenny), for example. We would expect to see the definite article capitalised when the place-name appears as the main element on a sign or in an address. However, the article may remain in lower case where the name appears within a Welsh sentence (*mynd i'r Fenni*). The same applies to place-names that have one single form that includes the Welsh definite article, names such as *Y Bala* and *Y Borth*. However, if such a name was included in an English sentence, then the article would naturally be omitted, and so we would write 'going to Bala' and 'in Borth'. There's a handful of Welsh place-names that have a single form that includes the English definite article, *The Cwm* and *The Cot* in Monmouthshire, for example. Again it would be expected that upper case be used for the definite article on road signs and in addresses, and lower case when the name appears in an English sentence. If the name appears in a Welsh sentence, we would usually replace the lower case English article with a lower case Welsh definite article (*mynd i'r Cwm*). The use of the definite article can change over time and it can naturally be omitted all together, but its trace is still seen in the fact that the names are never mutated in Welsh, and sometimes a phrasal definite article might precede them. An example is *Gaerwen* in Anglesey, where *mynd i Gaerwen* is heard in spoken Welsh, but it's not uncommon to see *mynd i'r Gaerwen* in written or more formal contexts.

*Manon Davies*

## Fishing Pools of the River Tywi





Raymond Rees

When compiling my database of *dwrgr* / *dyfrgr* [otter] place-names in Welsh, I was most grateful to Julie Malcolm Rees of Carmarthen for confirming that *Pil-y-Dwrgwns* [SN41726 19824] was a fishing pool of the River Tywi and was familiar to the coracle fishermen. She kindly confirmed that the pool is located east of the new A40 by-pass road bridge crossing the river over the old Llangynnwr Road, but is no longer fished owing to the presence of extensive tree roots in the river. The name of the pool is derived from *pil*, a borrowing from the English *pill*, meaning a tidal steam or creek.

Julie's father-in-law was the late Raymond Rees (1934–2013), fishmonger, coracle fisherman and coracle-maker, who in 2011 was appointed MBE for his services to the coracle heritage. His grandfather was the legendary William Elias BEM (1876–1973), a boat-builder and master coracle-maker. Julie is married to his

great-grandson, Malcolm Rees, one of a small number of coracle fishermen who still keep this long-standing tradition alive. Both Julie and Malcolm are active members of the Carmarthen Coracle & Netsmen's Association (see their Facebook page).

Julie also kindly sent me two maps showing the location of other fishing pools along the river Tywi which I am sure members of the Welsh Place-Name Society will find of interest. They complement those created by the late Idris John Mathias (1924–2019) who mapped the pools of the lower reaches of the River Teifi, and which were featured in our last *Bulletin*.



Richard E. Huws



'Mae'n gas gen i dirlun heb bobol ynddo'  
Iwan Llwyd

Ar bob mawnog a chlogwyn,  
Pob llech ac afon, pob llwyn  
A mynydd, y mae enw;  
Nid enwau hŷd ydyn nhw,  
Ond enwau o ben dynion  
Fu ar hyd yr henfro hon  
Ar ddau droed o ffridd i draeth,  
Â dwy law'n gwneud chwedloniaeth.  
A dagrau oer ar hyd grudd  
Yw'r meini ar y mynydd.

llun: Richard Jones, @lluniaurich

Twm Morys